# Llais Ogwan

**Papur Bro Dyffryn Ogwen**

Rhifyn 560 · **Ionawr 2025** · 70c

# Dyffryn Caredig – Diolch i Bartneriaeth Ogwen







Mae Dyffryn Ogwen wastad wedi ei adnabod fel cymuned glos, ble mae pobl yn gyfeillgar a chymwynasgar. Ond efo arferion bywyd pobl yn newid, mae'n bwysiach nag erioed i barhau a'r ysbryd cymunedol yma.

Dyma pam mae prosiect Dyffryn Caredig Partneriaeth Ogwen mor bwysig i gynnal yr hyn sy'n gwneud y Dyffryn yn le mor arbennig. Dyma rai o uchafbwyntiau a'r lles a ddaw o'r gwaith yma:

Mis arall o brysurdeb gyda'r Trafnidiaeth Cymunedol wedi bod yn cludo pobl leol ar gyfer apwyntiadau a digwyddiadau.

Bu Dewi, Colin ac Evan wrthi'n ddiwyd yn ystod y mis gyda hynny ac hefyd cludo disgyblion ysgol yn ogystal a thrigolion hyn y Dyffryn - pob dim o wersi ar gyfer disgyblion Dyffryn Ogwen ym Mangor, Caernarfon, Glynllifon a hyd yn oed cyn belled a Caergybi a hynny heb unrhyw allyriadau gwenwynig diolch i'r moduron trydan

Yn ogystal a chludiant ar gyfer y sesiynau arferol gyda chriw Dementia Actif yn y Clwb Rygbi ar ddydd Mercher cafwyd cinio 'Dolig arbennig yno i'r aelodau a llond Efan o hwyl ar y ffordd adra!

Uchafbwynt arall oedd cael cludo trigolion Plas Ogwen ar gyfer y Te Pnawn yn Ysgol Dyffryn Ogwen - digwyddiad gwerth chweil, ac un rydym bob tro yn falch iawn o gael bod yn rhan ohono.

Yn nes at ddiwedd y mis gyda phrysurdeb yr Wyl a phobl yn paratoi a gwneud eu siopa braf oedd cynnal teithiau siopa ar gyfer rheini sydd heb fynediad at gerbyd, rheini sydd ddim eisiau gyrru cyn belled a Gaer neu drigolion lleol sy'n hoffi dipyn o gwmni wrth wneud eu neges Nadoligaidd.

## Megan y Megane - Car Cymunedol Newydd

Datblygiad arall cyffrous yn ystod mis Rhagfyr oedd derbyn car trydan newydd fydd ar gael i'w fenthyg gan aelodau'n cymuned - https://www.trydani.org/cy/locations/bethesda

Mae'r cerbyd yma sydd a chwmpas o 200 milltir yn cymryd lle Carnedd, y car blaenorol, ac yn cael ei leoli acw ar gyfer hyrwyddo'r syniad o fenthyg yn hytrach na pherchnogi ceir, yn un 100% trydan a wefrir o baneli solar y Llyfrgell Gymunedol ac yn cefnogi menter gymdeithasol arall Gymreig.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch gyda Huw - huw@ogwen.org neu 07394906036.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi'r prosiect dros y flwyddyn, edrychwn ymlaen at eich gweld eto yn 2025!





YN Y RHIFYN HWN:



Hwb i'r galon 4



Mascot Eglwys 9



Natur o'n Cwmpas 13

# Llais Ogwan

**Rhif 560**
**Ionawr 2025**

**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk

**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Fflur Roberts**
(07767 473209)
fflur_roberts@hotmail.com

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

**Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Trystan Pritchard**. Y golygydd ym mis Chwefror fydd **Fflur Roberts**, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, LL57 3PD. 07767 473209

E-bost: fflur_roberts@hotmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 1 Chwefror** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 20 Chwefror** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD

YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

**Aelod Newydd**
Rydym yn croesawu Fflur Roberts yn aelod o Banel Golygyddol Llais Ogwan, ac yn dymuno'n dda iddi fel golygydd rhifyn y mis nesaf o'r papur ac i'r dyfodol.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

# Dyddiadur y Dyffryn

**Ionawr**
28 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

**Chwefror**
07 Neuadd Ogwen am 7.30. Definitely OASIS.
08 Neuadd Ogwen am 7.30. ADWAITH.
10 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
10 Cymd. Hanes D. Ogwen. Ieuan Wyn – Hiwmor Dyffryn Ogwen. Festri Jerusalem. 7.00.
10 Merched y Wawr Tregarth. Stori Awdures gyda Mared Lewis. Festri Shiloh am 7.30.
11 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
13 Y Gymdeithas. Iaith Bethesda gan Mary Jones. Festri Jerusalem am 7.00.
15 Neuadd Ogwen am 7.30. SURA SUSSO.
20 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
21 Neuadd Ogwen am 7.30. MICHAEL MCGOLDRICK, JOHN MCCUSCER & JOHN DOYLE.
24 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
25 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Rhagfyr**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (103) | Gwen Ellis, Talybont. |
| £20.00 | (9) | Dyfrig Jones, Tŷ'n y Coed, Bethesda. |
| £10.00 | (20) | Andre Lomozik, Rhos y Coed, Bethesda. |
| £5.00 | (161) | Elin Sanderson, Mynydd Llandygai. |

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £15.00 | Elwyn Hughes, Ystradgynlais. |
| £20.00 | Ken Jones, Yr Wyddgrug. |
| £2 | Di-enw, Rachub. |
| £20 | John Ffrancon Griffith, Abergele, er cof am ei rieni, John a Nesta Griffith |
| £10.00 | Fred Buckley, Tregarth. |
| £25.00 | Alan Davies, Porthaethwy, er cof am Bronwen a fu farw Rhagfyr 2017. |
| £20.00 | Er cof am W. J. Evans, Ffordd Llanllechid, a Glenys Evans, Ceunant, Llanllechid, oddi wrth Gwilym Rees, Karen, Tom a'r teulu. |
| £50.00 | Er cof am David O'Connor gan Carys, Sharon a Sioned. |
| £6.00 | Dennis a Ceri Dart, Rhos y Nant, Bethesda. |

**Diolch yn fawr**

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Cydymdeimlo**
Cyn y Nadolig, mi wnaethom ni golli un o blith ein haelodau ni yma, sef Mrs Valerie Thomas, Tan-y-Garth. Mi ddaeth Valerie yn aelod yng Ngharmel ar ôl i Salem, yr Eglwys Fethodistaidd yn Rachub, gau ym 1998. Rydan ni'n cydymdeimlo hefo Paul a Siân, Jonathan a Leanne, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Mi fydd hi'n chwith arnom ni yn y pentref ar ei hôl hi am fod Val yn un o blant Rachub ac wedi byw yma ar hyd ei hoes.

**Gweithgareddau'r Nadolig**
Cynhaliwyd Te Bach mis Rhagfyr yn ogystal â'r Te Nadolig i'r Clwb Gwau ar ddechrau mis Rhagfyr hefyd. Bu plant yr Ysgol Sul gyda rhai o genod ifanc Clwb Dwylo Prysur ym Moel y Ci yn gweld y mulod bach yno. Roedd y plant wrth eu boddau yn brwsio cotiau'r mulod ac yn cael mynd wedyn i weld Siôn Corn gyda'r mulod bach yn cael eu tywys yno.










**Sion Corn**
Ar fore Sul 22 Rhagfyr, mi ddaeth Siôn Corn unwaith eto i wrando ar y plant yn ymarfer ar gyfer gwasanaeth Nadolig y plant a'r bobl ifanc a oedd i'w gynnal ar y noson honno. Cafodd pob un o'r plant anrhegion ganddo fo.

Ar fore'r Nadolig ei hun, mi gawsom ni oedfa braf iawn dan arweiniad yr aelodau gyda rhai o'r plant a'r ieuenctid yn darllen ac yn canu. Dymuna Gwilym Rees Ceunant, Karen, Tom a'r teulu flwyddyn newydd dda i bawb.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Gwion Emlyn (Henbarc gynt) ac Anna Powys ar enedigaeth eu merch Soffia Non. Hefyd llongyfarchiadau i nain a taid Llanllechid sef Eleri ac Emlyn, Pont Llan, a mamgu a thadcu Caerdydd sef Sian a Rhys Powys.

**Marwolaeth**
Ar y 1af o Ragfyr 2024, bu farw Valerie Thomas yn 77 mlwydd oed, o Tan Y Garth, Llanllechid, yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.  Priod annwyl i'r diweddar Keith, mam a mam yng nghyfraith i Paul a Sian, Jonathan a Leanne. Chwaer i Janice a Roy, ar diweddar Raymond a Brian. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Carmel ar yr 17eg o Ragfyr dan arweiniad Mr Dafydd Coetmor Williams.

**Diolch**
Dymuna Paul, Jonathan, Sian a Leanne a'r teulu ddatgan eu diolchgarwch cynnes am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd atynt yn eu profedigaeth. Diolch yn fawr iawn hefyd am yr arian tuag at Ysgol Sul Capel Carmel a Plas Ogwen.

### Capel Carmel

Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)
Ionawr 19 : Parchg. R. O. Jones.
Ionawr 26 : Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Chwefror 2 : Parchg. Olaf Davies.
Chwefror 9 : Ms. Eleri Davies.
Chwefror 16 : Oedfa.
Ysgol Sul : 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur : Nos Wener am 6.30yh.

CROESO CYNNES I BAWB

## Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhelir cyfarfod Mis Rhagfyr y Cyngor Cymuned ar Nos Iau, Rhagfyr 12fed. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cynghorydd Rhydian Williams. Mae'r Cynghorydd Jen Morris wedi penderfynu ymddiswyddo fel cynghorydd lleol. Mae hyn yn newyddion trist i'r plwyf gan fod Jen wedi bod yn aelod gwerthfawr o'r Cyngor ers blynyddoedd lawer. Dymunwn y gorau iddi ar gyfer y dyfodol a diolch iddi am ei holl waith caled dros y blynyddoedd.

Braf yw gweld fod Partneriaeth y Carneddau wedi cychwyn ar dorri yr Eithin ar y mynydd.

Hefyd, mae'n braf gweld giatiau mynydd newydd yn Rachub, Waun Bryn a Bryn Hall. Mae'r giatiau yn gweddu'n dda gyda'i hamgylchoedd.

Yn olaf, hoffai Cyngor Cymuned Llanllechid ddymuno Blwyddyn Newydd dda i bawb!

# Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

### Diolch

Ar ddechrau blwyddyn newydd, gair byr o ddiolch ichi i gyd am eich cefnogaeth yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel gohebydd y Llais. Daliwch ati i anfon eich newyddion ataf eleni eto – dw i wir yn gwerthfawrogi ac yn edrych ymlaen at ei dderbyn.

### Cofio Wil Williams

Trist oedd clywed y newyddion am farw Wil Williams, Carreg y Garth Isaf, yn 62 oed ar Dachwedd 30 ac anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at ei wraig Caron a'r plant, y wyrion a'r wyresau, ei fam a'r teulu estynedig. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladd yn Amlosgfa Bangor ar Ragfyr 21 ac arwydd o boblogrwydd Wil oedd y ffaith fod y lle'n orlawn a llawer wedi methu â chael mynediad.

Yn Llandegai y ganwyd William Glyn Williams yn fab i Gwenda a'r diweddar Edgar Parry Williams, y limrigwr enwog gynt ar Talwrn y Beirdd. Symudodd y teulu yn ôl i Groesor Uchaf pan oedd yn bedair oed ac yno, yn yr ysgol gynradd leol, y taniwyd ei ddiddordeb yntau mewn barddoni. Ar ôl cyfnod yn gweithio i Rolls Royce yn yr Amwythig dychwelodd i Groesor gan weithio mewn cartrefi henoed am gyfnod cyn ailafael yn ei addysg yng Ngholeg Harlech a mynd ymlaen i Brifysgol Aberystwyth lle'r enillodd radd BA Anrhydedd a dilyn cwrs ymarfer dysgu wedi hynny.

Tra'n dysgu yn Ysgol Bryn Elian, Bae Colwyn y cyfarfu â Caron, oedd hefyd yn aelod o'r staff. Priododd y ddau yn 1999 a'r flwyddyn ganlynol daethant i fyw i Garreg y Garth Isaf. Fe'i penodwyd yn athro yn Ysgol y Bont, Llangefni cyn mynd yn brifathro ysgol gynradd Dolgellau. Ymddeolodd yn gynnar o'r swydd honno yn 2015 oherwydd problemau â'i galon a dychwelodd i Ysgol y Bont lle treuliodd weddill ei yrfa yn addysgu plant ag anghenion arbennig.

Yn anffodus daeth afiechyd arall, ar lun canser prin iawn, i'w flino ddwy flynedd yn



ôl. Gwellodd yn rhyfeddol ar ôl llawdriniaeth sylweddol a gwnaeth yn fawr o'i amser wedi ei adferiad yn teithio, yn mynd i gemau rygbi rhyngwladol ac yn mwynhau gwyliau gyda'i deulu. Ond fe ddaeth y daith i ben ddiwedd Tachwedd. Er hyn bydd y cof am Wil yn para'n fyw yn y pentref gan mai ei farddoniaeth ef sydd i'w weld ar wal flaen allanol yr ysgol gynradd, yn dystiolaeth barhaol i ddim ond un o'i amrywiol ddoniau.

Dyma flas bach o deyrngedau ei fab Gethin a'i ferch Dawn i Wil ar ddiwrnod ei angladd:

'Tasach chi isio ffeindio Dad mae'n siŵr mai yn y garej y basa fo, yn ei oferôls Super Mario a'i het cowboi ar ei ben yn whistlo neu yn gyrru limrigs i Radio Cymru. Mae rhai o'r atgofion mwyaf annwyl sydd gen i o Dad yn dod o'r dyddiau hir wnaethon ni dreulio efo'n gilydd yn siarad, chwerthin ac yn dod â'i syniadau arbennig o yn fyw.'
(Gethin)

'Yn fy arddegau roedd hi'n braf cael rhannu siwrna i'r ysgol efo'n gilydd bob dydd. Roeddwn i wrth fy modd - wel, heblaw am ar ddydd Iau pan oedd hi'n amser inni nôl bwyd i'r ieir!!... Dad, ti wedi bod yn graidd i'r holl ddigwyddiadau pwysig yn fy mywyd ac mi fydda i'n ddiolchgar iti am byth. Diolch am ddangos imi beth ydi cariad pur a nerth. Yn ddiolch i ti, mi wnawn ni'n siŵr ein bod yn aros yn gefn i'n gilydd.'
(Dawn)

### Clwb Rhiwen


Daeth nifer o'r aelodau ynghyd brynhawn Mercher Rhagfyr 18 yn yr Anglesey Arms ym Mhorthaethwy ar gyfer ein , Nadolig a mwynhaodd pawb y wledd. Yn ystod y prynhawn cynhaliwyd raffl, yn rhoddedig gan Nia, a'r enillydd oedd Dilys; cafwyd 'secret Santa' hefyd lle roedd pob aelod wedi dod ag anrheg ac yn derbyn anrheg eu hunain. Dosbarthwyd yr anrhegion gan Gareth.

Ymhlith y coed oedd i'w gweld yng Ngŵyl Coed Nadolig Eglwys St. Cedol, Pentir, roedd un Clwb Rhiwen wedi ei haddurno ag addurniadau yn rhoddedig gan yr aelodau, yn ogystal â gwybodaeth am y clwb. Roedd hi'n edrych yn hardd iawn.

Yn ein cyfarfod nesaf ar Chwefror 19 ein gwraig wadd fydd Llio o 'Age Cymru'. Edrychwn ymlaen am y sgwrs ynghylch gwaith 'Age Cymru' yn y gymuned. Trowch i mewn i'r Neuadd y prynhawn hwnnw am 2 o'r gloch i weld beth fydd ganddi hi i'w ddweud. Croeso cynnes i bawb.

### Merched y Wawr

I westy'r Gardd Fôn, Y Felinheli yr aeth aelodau'r gangen i fwynhau eu cinio Nadolig ar Ragfyr 10 a braf oedd cael rhoi'r byd yn ei le yng nghanol bwrlwm yr Ŵyl yno. Diolchwyd i Carys am wneud yr holl drefniadau ar ein cyfer a dymunwyd yn dda i Dilys Parry nad oedd yn medru ymuno efo ni ar y diwrnod. Fel sy'n arferol, does dim cyfarfod ym mis Ionawr ond byddwn yn dod at ein gilydd nesaf ar brynhawn Mawrth, Chwefror 11, am 1.30 o'r gloch. Bydd y cyfarfod dan ofal Catherine bryd hynny. Croeso cynnes iawn i aelodau, hen a newydd.



### Hwb i'r galon!

Ar ddechrau blwyddyn newydd beth well na gwên o'r galon! Mwynhaodd Gareth baentio'r corrach bach direidus yma yn y Clwb Crefft yn ddiweddar. Mae hefyd yn mynychu Clwb Rhiwen a'r Clwb Tenis Bwrdd yn rheolaidd yn ogystal â helpu i agor a chau'r Neuadd. Ar ben hynny bu'n helpu i blygu'r Llais ers blynyddoedd ac mae bellach wedi ehangu ei rownd ddosbarthu yn y pentref i gynnwys un Iona, gynt. Diolch yn fawr iti, Gareth!

# Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

### Cracyr Nadolig Gerlan

Cafwyd diwrnod da yn dathlu hwyl y Nadolig yn y Caban ar bnawn dydd Sul y 15fed o Ragfyr.

Roedd Cracyr Dolig Gerlan yn ddigwyddiad cymunedol hwyliog a lwyddodd i ddod a thrigolion y pentre at ei gilydd.

Roedd y stondin tatŵs a'r bwrdd crefftau'n hynod boblogaidd ac 'roedd stondin tombola'r Brownies yn brysur iawn hefyd. Cafwyd cyfle i wneud ffrindiau newydd a chael sgwrs dros baned a mins pei.

Mae pawb yn edrych mlaen i ddigwyddiadau tebyg eraill yn 2025 felly gadewch i ni wybod os oes gennych syniadau - da ni'n awyddus iawn i'r ganolfan gael ei defnyddio gymaint a phosib ar gyfer digwyddiadau cymunedol, partis, cyfarfodydd ac unrhyw beth arall.

Diolch i bawb ddaeth draw i gefnogi a gobeithio y byddwn yn cael llawer mwy o hwyl yn Y Caban yn 2025. Blwyddyn newydd dda pawb!

# YSGOL RHIWLAS



### Sioe Nadolig
Roedd y Neuadd Bentref yn llawn unwaith eto eleni gyda theulu a ffrindiau yn dod ynghyd I gefnogi ein Sioe Nadolig ar Ragfyr 10. Cychwynnodd y noson gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn actio drama Scrŵj gyda'i neges bwysig am deulu, ffrindiau a charedigrwydd.

Yna, cawsom ein hatgoffa gan y Cyfnod Sylfaen o wir ystyr y Nadolig. Bu pawb yn brysur yn dysgu eu llinellau a'r holl ganeuon - da iawn chi blant! Hoffem ddiolch i bwyllgor y Neuadd am y croeso cynnes a'r holl waith paratoi.

Hyfryd oedd gweld y Neuadd wedi ei haddurno'n hardd ar gyfer y Sioe.

### Cinio Nadolig
Cyn diwedd y tymor mwynhaodd y plantos ginio Nadolig blasus a pharti Nadolig gwerth chweil. Diolch yn fawr Anti Shan ac Anti Einir!

### Capel y Ffynnon
Unwaith eto eleni, daeth Capel y Ffynnon I'r ysgol i gynnal gwasanaeth Nadoligaidd gyda phlant y Cyfnod Sylfaen - roedd pawb wrth eu boddau. Buom yn canu, actio stori'r geni, gwneud ychydig o waith crefft a mwynhau bisged neu ddwy! Diolch o waelod calon i chi a Huwcyn am ddod i'n gweld ni eto'r flwyddyn yma.

### Mynediad i Ysgol Gynradd
Gair i'ch atgoffa - os ydych chi'n dymuno i'ch plentyn ymuno â'r dosbarth Meithrin/Derbyn ym mis Medi, mae'n rhaid cofrestru ar-lein erbyn y cyntaf o Chwefror.

### Blwyddyn Newydd Dda!
Ar ran pawb yn Ysgol Rhiwlas, hoffem ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd. Edrychwn ymlaen am flwyddyn brysur a chyffrous.




### Eglwys Sant Cedol
Fel rhan o'n dathliadau Nadolig eleni, cawsom y fraint o'ch croesawu i gyd fel ffrindiau'r ysgol i Eglwys Sant Cedol, Pentir ar gyfer ein gwasanaeth carolau. Am noson hyfryd o ganu a dod at ein gilydd cyn y Nadolig! Diolch i chi gyd am ymuno â ni.

Yn ogystal â'r gwasanaeth, roedd gan yr ysgol goeden Nadolig yn cael ei harddangos yn yr eglwys, yn un o gasgliad o goed wedi eu haddurno gan grwpiau lleol eraill. Roedd pawb wedi gwneud ymdrech wych ac roedd yr holl goed yn werth eu gweld.

### Plas Ogwen
Cawsom lawer o hwyl yn siopa ym Mangor yn prynu anrhegion Nadolig i drigolion Plas Ogwen, Bethesda. Roedd y cyngor ysgol wedi bod wrthi'n brysur iawn yn holi gweddill y disgyblion ac yn trafod pa eitemau y dylent eu prynu; cawsant amser gwych yn ysgrifennu rhestr siopa a chyfrifo costau gwahanol eitemau o gwmpas y siop. Cafodd pawb gyfle I wneud cerdyn Nadolig hefyd a gobeithiwn fynd i ganu I Blas Ogwen yn y flwyddyn newydd.



**Contractwyr Trydanol**

**Jones & Whitehead cyf**

Swyddfa Gofrestredig Penrala,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU

**Ffôn:** 01248 601257
**Ffacs:** 01248 601982
**E-bost:** info@jonesandwhitehead.co.uk

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

**Gan Andre Lomozik**



## RHAN 24

**21 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

Gwneuthurwr dodrefn o'r enw **Morris Williams** a'i wraig oedd yn byw yn rhif 21, Ogwen Terrace, Bethesda yn y flwyddyn 1871. Roedd Morris yn enedigol o Landdeiniolen, ac wedi ei eni yn 1823, a Margaret ei wraig wedi ei geni yn 1832 yn Llanllechid. Roedd eu merch a mam Morris yno hefyd, a morwyn. Ganwyd Jane, y ferch, yn 1858 yn Llanllechid, a Jane, mam Morris, yn Llangefni yn 1789. Merch o Llanllechid o'r enw Jane Griffiths oedd y forwyn, ac fe ganwyd hi yn 1849. Dyna dair Jane yn byw o dan yr un to.

Mae'n debygol mae ail wraig Morris oedd Margaret, a bod Morris wedi mabwysiadu Jane fel merch, gan ei bod hi yn 13 oed, sydd yn golygu ei bod wedi ei geni tua 1858, rai blynyddoedd cyn i Winifred ei wraig gyntaf farw, yn ôl y manylion sydd i'w gweld ar garreg fedd y teulu ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen. Bu hi farw ar Ebrill y 6ed 1865, rai dyddiau cyn eu plentyn William, a fu farw ar Ebrill 13eg 1865. Fel y soniwyd ar ddechrau'r daith yn olrhain hanes Ogwen Terrace, bu i un drychineb ar ôl y llall ddilyn Morris Williams ar ôl i'w dŷ losgi yn y flwyddyn 1857. Bu farw ei wraig Winifred yn 39 oed, yn 1865, a phump o'u plant rhwng 1859 ac 1866. Roedd yr ieuengaf yn ddau fis oed a'r hynaf yn chwech oed.

Rhestr a ymddangosodd yn y *North Wales Chronicle*, dyddiedig 7 a 21 o Chwefror 1857, yn ymwneud ag apêl i gynorthwyo Morris Williams ar ôl i'r tân ddinistrio rhan o'i siop yn Ogwen Terrace.

Y cofnod olaf sydd i'w gael am Morris yw ei farwolaeth yntau yn 1877, yn 54 mlwydd oed, ac mae'n gorwedd gyda'i wraig cyntaf ym mynwent Glanogwen.

**Elizer Jones** a oedd yn byw yn rhif 18 Ogwen Terrace, sydd nawr wedi ymgartrefu yn rhif 21 erbyn cyfrifiad 1881. Mae Elizer yn nodi ei fod yn cyflogi dau ddyn a thri bachgen. Dyma pwy oedd yn y tŷ ar ddiwrnod y cyfrifiad 1881: John Wynne (mab), Charles Wynne (mab), Alice Wynne (merch), William Wynne (mab), a Robert (mab). Nid oes sôn am wraig Elizer yn y cyfrifiad. Roedd John Wynne, 23 oed, a Charles ei frawd yn nodi mai peintwyr oeddynt. Roedd wyres Elizer yn cael ei henwi yng nghyfrifiad 1881, sef Mary Wynne Griffiths, 3 oed.

Nid oes fawr o wybodaeth am Elizer hyd at y flwyddyn 1886, lle cawn adroddiad yn y *Caernarvon & Dembigh Herald*, Gorffennaf 16, 1886, yn ei enwi fel un wedi mynd yn fethdalwr a bod ei achos yn dod gerbron y derbynnydd swyddogol yng Nghaer, ar yr 21ain o Orffennaf 1886. Cawn hysbyseb yn *Y Werin* ddydd Sadwrn

Apply to the Editor of the North Wales Chronicle.

LIST OF SUBSCRIPTIONS

FOR the purpose of making up the loss of Mr. Mr. MORRIS WILLIAMS, Cabinet Maker, Ogwen Terrace, Bethesda, whose premises, were partly burnt to the value of from £150 to £200, Jan. 6, 1857.

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| Hon. E. G. D. Pennant, M.P. | 10 | 0 | 0 |
| W. Francis, Esq., Esq., Brynderwen | 1 | 0 | 0 |
| J. Francis, Esq., ditto | 1 | 0 | 0 |
| A Friend | 1 | 0 | 0 |
| Rev. Mr. Vincent, Glanogwen, Bethesda | 1 | 0 | 0 |
| Mr. John Hughes, Douglas Arms, ditto | 1 | 0 | 0 |
| Mr. Hugh Williams, Butcher, ditto | 1 | 0 | 0 |
| Mr. Thomas Williams, King's Head, ditto | 1 | 0 | 0 |
| Mr. Thomas Hughes, Tyhen | 0 | 10 | 0 |
| Mr. Hugh Hughes, surgeon, Bethesda | 0 | 10 | 0 |
| Mr. Eleazer Jones, painter, ditto | 0 | 10 | 0 |
| Mr. Richard Hughes, flour-dealer, ditto | 0 | 10 | 0 |
| Rev. D. Jones, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. John Evans, carrier, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. Elias Jones, grocer, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. John Edwards, draper, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. Thomas Williams, druggist, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. John Williams, butcher, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. J. W. Richardson, draper, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. Robert Williams, ditto, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Rev. John Senner, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. Richard Thomas, Cloth Hall, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Thomas Parry, quarryman, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Joseph Hughes, weaver, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Hugh Pritchard, carrier, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. William Pritchard, ditto, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Richard Pritchard, ditto, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Griffith Jones, Birmingham House, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. W. Morris, Piccadilly, Manchester | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Elias P. Williams, Queen's Head, Bethesda | 0 | 5 | 0 |
| Mr. David Ellis, Blue Bell, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. Hugh Owen, Post-office, ditto | 0 | 3 | 0 |
| Mr. Richard Hughes, Bull | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Edward Williams, draper, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Richard Thomas, grocer, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Richard Williams, draper, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. Benjamin Williams, Victoria Hotel | 0 | 5 | 0 |
| Mr. Robert Griffith, grocer, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Joseph Salt, King's Arms, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Messrs. R. Davies and Sons, Menai Bridge | 5 | 0 | 0 |
| Mr. R. Williams, Ty'nclwt, Llandegai | 1 | 0 | 0 |
| Mr. W. Roberts, tailor, &c., Bethesda | 0 | 5 | 0 |
| Mr. J. Taylor, Gasworks, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. J. Ellis, draper, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. J. Parry, Clerk, Glanogwen Church, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. Howells, Glanogwen National School, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Elias Davies, druggist, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. O. Thomas, blacksmith, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Robert Jones, bookseller, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. E. Jones, butcher, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. W. Jones, Ogwen Terrace, ditto | 0 | 3 | 0 |
| Mrs. Parry, Tyddyniss, Llanllechid | 0 | 5 | 0 |

Subscriptions will be thankfully received at Bethesda by Mr. HUGHES, Douglas Arms; Mr. RICHARD HUGHES, Flour Dealer; and Mr. H. OWEN, Post-office; at Carnarvon, at the "Carnarvon and Denbigh Herald" Office; at Bangor, at the Office of this Paper.

R. WILLIAMS, Secretary.

THE POINT OF AYR LIFEBOAT.

ADDITIONAL SUBSCRIPTIONS


FOR making up the loss of Mr. MORRIS WILLIAMS, Cabinet Maker, Ogwen Terrace, Bethesda, whose premises were partly burnt, to the value of £150 to £200, January 6, 1857.

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| Subscriptions already advertised | £32 | 9 | 0 |
| Mr. Swansborough, Bangor | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Richard Owen, Pantdreiniog | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Thos. Enoch Williams, Bethesda | 0 | 2 | 6 |
| Mr. W. Roberts, 'Rachub | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Benjamin Evans, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Robert Jones, Tyddynbwdin, Pentir | 1 | 0 | 0 |
| Mrs. Roberts, Castell, ditto | 0 | 6 | 0 |
| Mr. H. Williams, Ynys, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. E. Evans, Brynhowell, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Thos. Jones, Pantycyff, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. H. Williams, Tanfoel, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Rd. Willams, ditto, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Morris Williams, Troswaen, ditto | 0 | 5 | 0 |
| Mr. Wm. Jones, draper, ditto | 0 | 7 | 6 |
| Mr. Roberts, tea dealer, Liverpool | 0 | 5 | 0 |
| Mr. Jacob Williams, agent, Bangor | 0 | 2 | 6 |
| Mr. Evan Roberts, Carneddi | 0 | 2 | 6 |
| Mr. A. Ll. Lewis, British School, ditto | 0 | 2 | 6 |
| Mr. W. W. Jones, Chwarelgoch | 0 | 10 | 0 |
| Mr. Hugh Jones, ditto | 0 | 5 | 0 |
| | £37 | 0 | 0 |

It is requested that those that have been kind enough to collect for the above will send in their lists of subscriptions by Thursday next. ROBT. WILLIAMS, Sec.

Awst 28 1886, '*BETHESDA IMPORTANT SALE OF LEASEHOLD BUSINESS PREMISES, FREEHOLD & LEASEHOLD DWELLING HOUSES. LOT 2.- (By order of the Morgagers) all that Dwelling House. Shop, and large Warehouses, know as No. 21, Ogwen Terrace, Bethesda. Term leasehold of 60 years from the 12th November, 1852, at a ground rent of £1-12s-od per annum.*'

Mae'r teulu wedi ymadael â rhif 21 Ogwen Terrace erbyn y flwyddyn 1891.



Parch. D. ADAMS, B.A., Lerpwl

**Y Parch. David Adams** a'i deulu sydd yn byw yn rhif 21 Ogwen Terrace erbyn hyn. Fe'i ganwyd ef ar yr 28ain o Awst 1845, yn fab i John a Margaret Adams, yn Nhalybont, Ceredigion. Roedd ei wraig Jane yn 32 oed ac wedi ei geni yng Nghaerfyrddin. Roedd dwy ferch ganddynt, sef Sarah Jane yn 10 oed, a Myfanwy yn 8 oed, ill dwy wedi eu geni yng Ngheredigion. Roedd morwyn yn gweini iddynt o'r enw Francis Jones, ac roedd hi yn enedigol o Gaerfyrddin hefyd.

Yn 1888 y symudodd y Parch. David Adams i Fethesda i fyw a gweinidogaethu gyda'r Annibynwyr. Cawn adroddiad o'i sefydlu yn *Baner ac Amserau Cymru*, Medi 22, 1888: 'Sefydlu y Parch. David Adams, B.A. – Fel y crybwyllasom dro yn ôl, fod Mr. Adams yn cymryd gofal eglwys Annibynnol Bethesda; a'r Sadwrn, a'r Sul, a Llun diwethaf, y cymerodd yr amgylchiad le; a chafwyd gwasanaeth y

Parchedigion Dr. Herbert Evans, Caernarfon; R. Solomon Williams, y cyn-weinidog; O. Thomas, Ceredigion; W. Parry Hughes, Ffestiniog; William Williams, Maentwrog; ac Owen Jones, Pwllheli. Cafwyd cyfarfodydd gwir dda.'

Roedd David Adams yn aelod o Gymdeithas Ryddfrydig Bethesda hefyd, ac mae o'n cynnig mewn araith rymus, a eiliwyd gan Iwan Jenkyn F.R.H.S., "Fod y cyfarfod hwn yn datgan ei gymeradwyaeth o'r mudiad presennol i ffurfio Plaid Gymreig effeithiol yn Senedd Prydain Fawr; yn barnu y dylid cael ffangellyddion (whips) i ofalu am aelodau y cyfryw blaid, ac yn gwasgu ar gynrychiolwyr y gymdeithas hon, yn nghynhadledd y Cyngrair Cenedlaethol yn y Drefnewydd ar y 10fed cyfisol, i roddi datganiad eglur i gynnwys y penderfyniad hwn".

Bu David Adams yn weithgar ym myd yr eisteddfodau hefyd, ac roedd yn gadeirfardd Eisteddfod y Bermo, Ddydd Gŵyl Dewi. Testun y bryddest oedd 'Gorthrwm'. Mewn adroddiad arall yn *Y Genedl Gymreig*, Mawrth 6, 1889, cawn hanes cyngerdd Cymreig gan blant Ysgol y Cefnfaes". Dyma ddywed yr adroddiad" 'Cymerwyd y gadair gan y Parch. David Adams, B.A.. Yr Arweinydd oedd Mr Iwan Jenkyn. Canwyd alawon Cymreig gan y plant yn dra swynol. A chymerwyd rhan gan Tenorydd Mynyddig, Eos Idwal, Mr R. Thomas, Caerberllan; Mrs Iwan Jenkyn a Miss Pritchard, Penybryn. Hefyd gan barti o'r Coleg Normalaidd, Bangor. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Parry, Coetmor Hall. Dyma'r trydydd cyngerdd o'r fath, ac mae'n amlwg ei fod ar gynnydd o ran diddordeb a phoblogrwydd yn yr ardal.

Yn *Y Goleuad*, Mawrth y 9fed 1892, mae plant Ysgol y Cefnfaes yn cael gwledd o de a bara brith, ac yn yr hwyr yn cynnal cyngerdd hollol Gymreig. Llywyddwyd y cyngerdd gan y Parch. David Adams, ac arweiniwyd gan Mr Crowther, ysgolfeistr y Cefnfaes.

Yn *Y Goleuad*, Hydref 1894, mae apêl Athrofa Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn ymddangos: 'Y mae Cyngor yr Athrofa yn gwneud apêl at y wlad am danysgrifiadau tuag at wneud i fyny y swm o £5,000 sydd yn angenrheidiol eu cael tuag at gyflawni yr amodau a osodwyd i lawr gan Ganghellor y Trysorlys, pan yr addawodd y rhodd o £10,000 tuag at gwblhau adeiladu yr athrofa.'

Mae'r Parch. David Adams yn cyfrannu £5-5-0 tuag at yr achos. Yn 1895 derbyniodd alwad i fugeilio Eglwys Annibynnol Grove Street, Lerpwl, ac yr oedd i ddechrau yno ganol mis Medi. Roedd yn golled fawr i ardal Bethesda oherwydd ei fod wedi bod yn weithgar iawn ym mhob agwedd ar fywyd y gymdeithas.

**John N. Crowther** a'i deulu sydd yn byw yn rhif 21 Ogwen Terrace erbyn cyfrifiad 1901. Roeddynt wedi symud o'u hen gartref, sef rhif 15, i'w cartref newydd mae'n debyg ar ôl i'r Parchedig David Adams ymadael â Bethesda yn 1895.

Roedd wyth o'u deuddeg plentyn yn byw gyda John N. Crowther a'i wraig Sarah yn y flwyddyn 1901. Yn *Y Genedl Gymreig* dyddiedig Awst 2, 1898, mae adroddiad yn sôn am lwyddiant merch J. N. Crowther, sef Winifred, yn arholiad y Brif Ysgol. Roedd Winifred wedi ei haddysgu yn Ysgol Sirol Bethesda, ac wedi pasio yn llwyddiannus yn arholiad y Matriculation yn y Brifysgol mewn Lladin, Mathemateg, Cemeg a Saesneg. Ynghyd â dau arall o ieuenctid Bethesda, sef John?, Hill Street, Gerlan, ac W. Ellis Williams, yntau o'r Gerlan.



John Newton Crowther, llun gyda chaniatâd Archifdy Gwynedd

Yn anffodus, bu i iechyd Winifred dorri, a chawn hysbysiad o'i marwolaeth yn ymddangos yn *Baner ac Amserau Cymru*, ar y 7fed o Chwefror 1900: 'Crowther - Chwefror 2il, yn 18 mlwydd oed, wedi ychydig ddyddiau o gystudd caled, annwyl ferch Mr a Mrs Crowther, ysgolfeistr y Cefnfaes. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Glanogwen.'

Er chwilio trwy arysgrifau cerrig coffa'r eglwys nid wyf wedi darganfod ei charreg fedd.

Roedd J. N. Crowther yn cael ei enwi fel un o uchel reithwyr ym Mrawdlys Chwarterol Arfon yn y flwyddyn 1904. Roedd J N. Crowther a'i deulu yn dal i fyw yn rhif 21 Ogwen Terrace ar ddydd y cyfrifiad yn 1911, ond erbyn hyn roedd y teulu wedi lleihau.Dim ond dwy o'r genethod, sef Lilian a Verna, oedd gartref gyda'u rhieni. Roedd Emrys, un o'r meibion, yn byw yn Llanidloes gyda'i chwaer a'i frawd yng nghyfraith, ac yn athro ysgol yno.

**(i'w barhau) tro nesaf rhif 22 Rhes Ogwen**


1969
M.HUGHES A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS
01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

L. STURRS A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION, FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com


DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

Londis
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

# Iaith Pesda

gan Mary Jones



Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gobeithio i bawb gael Nadolig a Dydd Calan hwyliog. Wrth feddwl am y gair 'hwyliog'; rwyf wedi clywed ambell i berson ar y radio yn dweud 'hwylus'; I olygu 'cael hwyl'. I mi hwylus ydy rhywbeth sydd wrth law, neu hawdd I'w ddefnyddio, neu fynd ato. 'Mae lle hwylus dros ben i barcio car a mynd am dro yno; Ond 'Cawsom noson hwyliog neithiwr.' Rhyw feddwl yn uchel wrth agor y golofn!

**Go**
Dyma air bach sy'n digwydd yn aml wrth inni sgwrsio, ac mae o'n cael ei ddefnyddio o flaen geiriau eraill i gyfleu gwahanol ystyron. Dyma ichi rai: go wir. Pwysleisio bod rhywbeth yn wir; bod rhywbeth wedi digwydd yn bendant – "Mi welis i o'n dwyn y pres. Go wir!"

Mae o hefyd yn cael ei ddefnyddio fel cwestiwn mewn ymateb i rywun yn dweud rhywbeth sy'n cael ei amau – "Dw i 'di ennill pum mil o bunna' ar geffyl." "Dew! Go wir?"

**go iawn.**
Mae hwn yn debyg i 'go wir'. Rhywbeth sy'n ffaith; rhywbeth sy'n bod neu sydd wedi digwydd mewn gwirionedd – "Be' 'di ei enw go iawn o?"; "Be ddigwyddodd iddi hi go iawn?"

**go lew.**
Mae dwy ystyr i hwn. Mae'n medru disgrifio rhywun sydd ddim yn iach – "Go lew ydi hi." Mae o hefyd yn medru bod yn fwy cadarnhaol – "Mae hi'n dŵad yn ei blaen yn o lew erbyn hyn."

**go drapia'.**
Ebychiad ydy hwn, yn mynegi siom a rhwystredigaeth, ac mae 'drapia' yn air-gwneud i osgoi dweud 'damia'.

**go daria.**
Ebychiad tebyg i'r uchod, eto i osgoi dweud damia' – "Go daria, dw i 'di anghofio ffonio Brenda."

**go fflamia'.**
Ebychiad eto, efo'r fflamiau, mwyaf tebyg, yn cyfeirio at fflamau tân uffern.

**go gyfar.**
'ar gyfer' ydy hwn – "Mae'r llestri crand 'ma go gyfar pobol ddiarth."
gochwithig. Mynd o'i le; sefyllfa'n troi'n drafferthus – "Mae petha wedi mynd yno chwithig ar ôl iddo fo wario gormod."

Ambell air ac ymadrodd

**mwdral.**
'Llawer mwy' ydy ystyr hwn – "Mae ei llawysgrifen hi'n well o beth mwdral na un fi."

**llathan o gowntar.**
Cyfeiriad at fab neu ferch siop sy'n mynd i etifeddu'r busnes a thrwy hynny'n cael bywoliaeth sicr – "Mi fydd mab y siop yn iawn. Llathan o gowntar yntê."

**enw'n fwd.**
Rhywun wedi gwneud tro gwael â rhywun arall – "Mae'i enw fo'n fwd ar ôl iddo fo wrthod helpu ei daid pan oedd angen."

**o dani.**
Mae'n debyg i'r uchod – "Mae hi o dani'n arw ar ôl peidio â thalu'r pres yn ôl i'w ffrind."

**yn y wôrs.**
Y gair Saesneg 'wars' – rhyfeloedd – sydd yn y dywediad hwn. Mae o'n cael ei ddefnyddio pan fydd rhywun wedi brifo mewn damwain (fel pe bai wedi ei anafu mewn rhyfeloedd) – "Mae hi yn y wôrs druan!"

**lôn goch.**
Dyma ddwedwn ni am y llwnc – "Aeth y lobsgows i lawr y lôn goch yn o sydyn."

**taro i mewn.**
Mynd i mewn i adeilad – cartref neu le gwaith ran amlaf – "Cofia daro i mewn os byddi di'n digwydd mynd heibio."

**cwsno.**
Bydd rnai ffrwythau fel afalau yn crebachu wrth gael eu cadw am hir, pan fyddant yn dechrau hyn dywedwn eu bod wedi 'cwsno.'

**horwth.**
Pan yn disgrifio dyn mawr yna fe ddywedwn ei fod 'yn horwth o ddyn; ond dywedwn 'pladras o ddynes.'

**ffwndro.**
Pan fydd rhywun yn gymysglyd ac yn siarad heb wneud llawer o synnwyr, yna dywedir bod y person yn 'ffwndro.' Weithiau bydd gwrês corff uchel yn peri i berson ffwndro hefyd.

**dotio.**
Gair a ddefnyddiwn i ddweud ein bod wedi gwirioni efo rhywbeth "Roedd pawb wedi dotio at y ci bach newydd."

**sbydu.**
Clirio, nes fydd dim ar ôl "Dwi'n mynd i nôl un neu ddwy fechdan neu mi fyddant i gyd 'di cael eu sbydu."

Cofiwch os oes gennych sylw o gwbl cysylltwch. Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk


SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)

MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

## Eglwys St. Cedol, Pentir

**Sul y Cofio**
Cynhaliwyd yn yr Eglwys gwasanaeth Coffa, gyda Chadeirydd Cyngor Cymuned Pentir y Cynghorwr Ieuan Ellis a'r Cynghorwr Elwyn Jones o Gyngor Gwynedd yn gosod torchau wrth droed yr allor, hefyd gosododd James Frith dorch a'r ran Eglwys St. Cedol, gosodwyd groesau neu phabi gan aelodau o'r gynulleidfa er cof am y rhai a gollwyd yn y rhyfeloedd a hefyd dros heddwch yn ein byd.

**Clwb Crefftau**
Bydd Clwb Crefftau Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod a'r yr 2ail a'r 4ydd Prynhawn Gwener o bob mis am 2yh. Dewch a'ch crefft i gael hwyl, panad a sgwrs.

**Te Bach**
Mae eglwys St.Cedol yn cynnal ei Te Bach ar brynhawn Mercher cyntaf or mis am 2 o'r cloch, bydd y Te Bach nesaf a'r 5ed o Fawrth 2025 lle fyddwn yn dathlu Gwyl Dewi. Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisen a sgwrs.

**Gymanfa Garolau**
Nos Sul y 24 o Dachwedd yn Capel Shiloh, Tregarth cynhaliwyd Gymanfa Garolau Gyda Meinir Wyn Roberts - Soprano a Chôr Glanaethwy a Robert Evans yn cyfeilio, Roedd y noson dan arweiniad Cefin Roberts a Sharon Williams wrth yr Organ.

Er bod yn noson stormus, braf oedd gweld cynifer wedi troi allan i fwynhau noson wefreiddiol dros ben. Roedd elw'r noson yn mynd tua gronfa atgyweirio Eglwys St, Cedol.

Hoffwn ddiolch a'r rhan Eglwys St. Cedol i aelodau Capel Shiloh am y croeso a'r fraint o gael rhannu yr adeilad hardd yma gyda hwy, ond a fwy na dim hoffwn ddiolch i'r gynulleidfa am ei cefnogaeth.



**Gŵyl Coed Nadolig**
Ar benwythnos y 14 ar 15 Rhagfyr cynhaliwyd Gwyl Coed Nadolig am y tro cyntaf yn yr Eglwys. Roedd 15 o coed wedi cael ei harddangos gan wahanol unigolion, clybiau a busnesau. Roedd y coed i gyd wedi ei haddurno mewn gwahanol ddulliau a oedd yn gysylltiedig ar clybiau neu fusnesau, roeddent i gyd yn hardd dros ben yn goleuo gofod yr Eglwys.

Diolch yn fawr i'r rhai a gymerodd a'r gwaith i arddangos coeden, ond mae'n diolch yn enfawr i'r bobol a fu draw y gweld yr arddangosfa, diolch i chi gyd am eich cefnogaeth. Edrychwn yn mlaen i Nadolig 2025.

**Ysgol Rhiwlas**
Braf oedd cael croesawu Ysgol Gynradd Rhiwlas i'r eglwys ar y 17 o Rhagfyr ar gyfer ei Gwasanaeth Carolau. Cawsom noson wych gyda'r plant ar athrawon yn ein diddanu gyda carolau a darlleniadau ynghlwm ar Nadolig. Diolch o gallon am noson fendigedig.

**Mascot Eglwys**
Yn ystod y flwyddyn cafwyd cystadleuaeth i greu Mascot i'r Eglwys, gyda plant Ysgol Rhiwlas yn cynllunio'r mascot sef tylluan o'r enw Cedol. Mae Eirwen wedi bod yn brysur dros ben dros y misoedd diwethaf yn gwneud tylluanod lliwgar sydd a'r werth yn yr eglwys neu gan aelodau o'r eglwys am £5.00 yr un, er mwyn codi arian i atgyweirio'r eglwys. Diolch yn fawr Eirwen y gwaith caled.




**Manylion cyswllt**
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud ar eglwys cysylltwch a'r Y Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521.

Cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu cael sgwrs.

**C.L. JONES**
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# YSGOL BODFEURIG

### Ymweliad Caernarfon

Cwestiwn mawr dosbarth Ogwen ar hyn o bryd ydi ‘Oes angen rheolau?’ Fel rhan o’r gwaith yma aethom ar ymweliad i Gaernarfon. Roeddem am gychwyn ein diwrnod yn dysgu am sut mae’r wlad yn cael ei redeg heddiw.

Braint oedd gael ymweld â Siambr Dafydd Orwig yng Nghyngor Gwynedd a hynny o dan arweiniad ein cynghorydd lleol Beca Roberts.

Cawsom ddysgu am waith y Cyngor, gwaith Beca yn ogystal a chael cyfle i ofyn cwestiynau yn union fel cynghorwyr eraill!

Yn dilyn hyn aethom i Gastell Caernarfon i ddysgu am sut roedd ein gwlad yn cael ei redeg amser maith yn ôl yn amser Edward I. Cafodd pawb ddiwrnod gwerth chweil yn dysgu llawer ac yn helpu ni i feddwl am ateb i’r cwestiwn os oes angen rheolau!







### Nadolig ym Modfeurig

Cawsom fis prysur i’w gofio yn arwain at y Nadolig. Dechreuodd y cyfnod gyda dosbarth Idwal yn mynd i wylio sioe Nadolig Cyw yn y Galeri – roedd pawb wedi gwirioni gweld criw Cyw yn fyw yn canu a dawnsio!

Yn dilyn hyn cawsom ffair Nadolig llwyddiannus dros ben lwyddodd i gasglu dros £650 tuag at yr ysgol! Ffordd arall o godi arian tuag at yr ysgol oedd gyda noson ffilm – cafodd pawb noson wych yn mwynhau ffilm a bwyta popcorn! Diolch i bawb am gefnogi.

Erbyn canol y mis roedd yn amser cinio Nadolig – diolch o galon i Anti Anwen, Anti Dana, Anti Mary ac Anti Rhian am ginio bendigedig nid yn unig dros y Nadolig ond pob dydd!

Yn ystod wythnos olaf tymor cafwyd perfformiad penigamp wrth i’r ysgol gyflwyno eu sioe Nadolig ‘Nadolig heb wi-fi’. Roedd pawb yn gytûn fod y canu a’r actio yn arbennig – da iawn chi bawb!

Yn dilyn ein sioe Nadolig cafodd dosbarth Ogwen fynd i Venue Cymru yn Llandudno i weld panto Jac a’r goeden ffa. Roedd yn gyfle i ymlacio ar ôl wythnos brysur dros ben a gwylio pobol eraill wrthi yn perfformio – cafodd pawb amser gwych. Cawson nhw hefyd gyfle i fynd i Ysgol Dyffryn Ogwen ar gyfer cyngerdd Nadolig gyda tiwtoriaid y gwasanaeth cerdd – roedd yn arbennig a phawb wedi mwynhau!

I orffen y tymor cawsom bartïon Nadolig. Diolch unwaith eto Anti Anwen am helpu gyda’r bwyd. Roedd pawb wir yn haeddu cael hwyl a sbri ar ôl mis mor brysur ac dyna braf oedd croesawu ymwelydd arbennig i’r parti – neb llai na Sion Corn!




### Cronfa Bwyd Partneriaeth Ogwen

Mae bellach yn draddodiad pob blwyddyn yn yr ysgol i ni wneud casgliad o fwyd ar gyfer Partneriaeth Ogwen. Fe aeth Dosbarth Ogwen ati i sgriptio a chynnal gwasanaeth am ddiolchgarwch ac am bwysigrwydd meddwl am eraill cyn i ni fynd ati i gasglu bwyd ar eu cyfer. Dyma’r Cyngor Ysgol gyda bws mini Partneriaeth Ogwen ddaeth i gasglu’r bwyd!

### Diwrnod Sanau Od

Dyma blantos Bodfeurig yn dangos fod hi'n iawn bod yn wahanol wrth wisgo sanau od i'r ysgol yn ystod wythnos gwrth fwlio. Roedd yn rhan o gyfres o weithgareddau ddigwyddodd yn ystod yr wythnos i nodi pwysigrwydd derbyn pawb a peidio bwlio.



### Paratoi ar gyfer y gwanwyn

Eleni mae'r ysgol wedi bod yn ffodus i gael grant ar gyfer creu gardd gymunedol ar dir yr ysgol. Mae llawer o waith wedi mynd ymlaen yn creu a sefydlu'r ardd. Fel rhan o'r cynllun yma fe ddaeth criw o Cadwch Gymru'n Daclus acw i'n dysgu am fylbiau ac i'n helpu i blannu bylbiau o gwmpas yr ysgol. Mae pawb yn edrych ymlaen yn fawr i weld y blodau yn tyfu yn y gwanwyn!




SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar y ffôn

07394 905881

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu

CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL


## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

### Cartref newydd

Mae Abbie Edwards wedi symud i rif 5 Dolhelyg o'r diwedd !
Gyda chymorth di-flino ei thad , Steve, ac aelodau eraill o'r teulu, mae wedi trawsnewid 'Tŷ Anti Kit' yn llwyr, tra'n gwneud ei gorau i gadw cymaint o'r nodweddion gwreiddiol â phosibl. Mae wedi golygu misoedd maith o waith iddynt, ond mae'r canlyniad yn ddigon o sioe. Abbie, rydan ni'n dy groesawu i Ddolhelyg ac yn gobeithio y byddi'n hapus iawn yn ein plith.

Mae Barry, 4 Min Ogwen, wedi ymgartrefu ers sbel o amser ym Mhlas Maesincla, Caernarfon. Mae ganddo ystafell braf, gyda digon o le i gadw ei eiddo i gyd, a mae wrth ei fodd yno. Cofiwn yn annwyl iawn at Ida, a ofalodd amdano mor dyner am flynyddoedd lawer, ac at ei ddwy chwaer, sydd yr un mor ofalgar o'u mam.

### Dymuniadau gorau

Mae Jean Hughes, Bryn Awel, wedi symud o Ysbyty Eryri i Blas Ogwen i gryfhau. Mae nifer o'r Gofalwyr yn cofio ei ffyddlondeb a'i charedigrwydd yr holl flynyddoedd bu Dilys, ei chwaer, yn aros yno, a maent wrth eu bodd yn edrych ar ei hôl. Un o'r Gerlan ydi Jean , felly, am y tro, mae hi'n ôl yn ei chynefin.

### Brysiwch wella!

Treuliodd David Carr, 5 Cae Bach, gyfnod yn yr Ysbyty yn ystod mis Tachwedd, ond mae'n dda cael deud ei fod gartref erbyn hyn ac yn gwella.

Gorfu i Jean Hughes, 5 Bro Emrys, gael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ychydig o ddyddiau cyn y Nadolig, ond fe gafodd hithau ddod adref i wella erbyn yr Ŵyl.

Cafodd Dylan Hughes (Dylan Post) driniaeth ar ei benglin ym mis Rhagfyr. Mae o'n dod yn ei flaen yn ardderchog.

### Colledion

Ar Dachwedd 15ed, yn dilyn gwaeledd hir, bu farw Carol Morris yn ei chartref ym Mangor. Bu Carol yn byw am rai blynyddoedd ym Mro Emrys, a theimlai ei hen ffrindiau'n drist iawn pan ddaeth y newyddion am ei marwolaeth.

Estynnwn gydymdeimlad dwys at deulu'r diweddar Ken Brown, un arall o 'hogia' Talybont', a fu farw yng Nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon ar 27ain o Dachwedd. Dioddefodd afiechyd am amser maith.

Roedd Ken yn ddyn clên a chymeradwy. Gwelir ei golli'n arw gan ei deulu a'i hen ffrindiau yma yn Nhalybont.

Cynhaliwyd ei wasanaeth angladdol yn Eglwys Llandygai ar ddydd Iau, Rhagfyr 5ed, a fe'i roddwyd i orffwys ym mynwent Llanfairisgaer, y Felinheli gyda'i ddiweddar briod, Shirley.

Ar ddiwedd mis Tachwedd , bu farw Clifford Hughes yn ei gartref yn Frodsham. Bydd hen drigolion Talybont yn ei gofio ef a'i frawd, Ronald, yn byw yng Nghae Gwigin yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Er iddo fyw yn Lloegr am y rhan fwyaf o'i oes, byddai wrth ei fodd yn ymweld o dro i dro â bro ei febyd.

Roedd Cliff yn gefnder i Margaret Fernley sydd wedi profi colledion mawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.


Iddi hi, ac i bawb arall sydd mewn sefyllfa debyg, dymunwn flwyddyn newydd well.

### Llongyfarchiadau

Ychydig cyn y Nadolig, derbyniodd Seren, merch Val a'r diweddar Colin Unsted, 3 Dolhelyg, a Catrin, merch Alison a Gary Pritchard, 40 Bro Emrys, eu graddau ym Mhrifysgol Bangor. Mae Catrin yn Fydwraig yn Ysbyty Gwynedd a Seren yn Lanweithydd (Hygenist) yn Neintyddfa Lodwig Villa, Bangor. Mae'r ddwy wedi gweithio'n hynod o galed i gyrraedd y nôd, a dymunwn bob llwyddiant iddynt i'r dyfodol. Genod, mae'ch teuluoedd, ffrindiau a chymdogion yn Nhalybont yn falch iawn ohonoch.



Catrin



Seren

**Capel Bethlehem**
Oedfaon (am 2 o'r gloch)

Ionawr 26 : Parchg. Gwenda Richards.
Chwefror 2: Mr. D. Glyn Williams.
Chwefror 9: Parchg. Olaf Davies.
Chwefror 16: Oedfa.
Chwefror 23: Parchg. Dafydd Job

Croeso cynnes i bawb.

# CHWILAIR



## PONTYDD CYMRU

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | B | R | I | T | A | N | N | I | A | H | A | F | R | E | N | A | W | B | F |
| H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | E | S |
| H | E | I | M | G | V | H | M | D | W | H | U | Z | M | U | X | V | A | R | D |
| D | D | E | O | C | N | F | E | C | T | N | O | H | P | A | R | T | N | M | A |
| L | P | D | D | Y | W | E | N | S | A | C | O | D | U | L | G | T | N | O | B |
| A | L | U | Q | U | S | O | F | R | P | Y | Q | Z | G | L | R | H | C | U | M |
| W | N | A | O | Y | R | I | A | S | Z | U | T | F | D | E | X | U | P | W | R |
| H | C | Q | N | H | W | E | H | O | Y | E | E | G | E | G | O | M | H | E | P |
| T | T | C | T | G | B | B | C | U | U | J | P | L | T | L | M | I | V | V | D |
| C | B | B | N | F | O | R | F | O | G | J | V | I | I | O | R | R | X | I | M |
| H | N | T | I | T | O | L | S | K | O | P | W | R | C | D | M | K | C | B | O |
| R | Y | C | L | X | V | R | L | Y | H | S | T | M | R | R | E | F | Y | **H** | J |
| D | L | Z | F | H | B | C | W | E | O | S | C | R | A | W | I | X | N | **T** | I |
| L | L | X | F | J | J | M | B | W | N | T | E | X | M | A | D | X | K | **R** | F |
| U | N | P | Y | C | Q | Y | O | I | L | F | E | R | Z | F | Q | R | O | **O** | C |
| T | I | D | R | G | W | M | E | L | I | N | C | O | E | T | M | O | R | **B** | S |
| L | M | Z | I | E | B | E | A | J | K | J | C | L | N | N | L | R | V | O | G |
| J | P | W | S | P | G | S | O | W | J | J | Q | U | L | O | F | S | V | T | X |
| E | U | G | H | W | O | N | N | O | M | S | L | Z | E | P | A | F | X | I | W |
| T | Z | H | K | V | A | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O | G | D | H | B |

Yn y Chwilair mis yma mae deuddeg PONT YNG NGYMRU i'w darganfod . Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn <u>**un**</u> llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 31 Ionawr. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu cerdyn yn iawn.**

Dim ond dau ateb a gyrhaeddodd trwy'r post mis diwethaf, mae'n debyg fod pawb yn brysur iawn gyda'r paratoadau ar gyfer y Nadolig, rwyf yn ddiolchgar iawn i chwi Judith Hughes, a Sandra Howell, am rhoi cynnig a'r y Chwilair yn ystod yr amser prysur yma, felly dyma ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll, a pob lwc gyda'r Chwilair yn ystod y flwyddyn.

**Dyma atebion Chwilair Rhagfyr:** Afon Wen; Allt Rhiw Goch; Bryn Hwyaid; Creigiau Gleision; Foel Goch; Llymllwyd; Nant y Gilfach Felen; Parc Main; Penrala; Rhyd Goch; Sarn yr Afanc; Waun Wen.

**Enillydd Rhagfyr oedd:** Judith Hughes, Wenallt, Llangoed.

# Y Goeden Afalau - Rhan 3



Efo cynifer o wahanol fathau o goed afalau, gorchwyl arbenigol yw gwahaniaethu rhyngddynt. Mae hyd yn oed afalau unigol ar yr un goeden yn medru amrywio o ran patrwm y lliwiau ac o ran maint. Un sydd wedi ymddiddori yn hanes coed afalau yng Nghymru yw Carwyn Graves, ac mae ei gyfrol Afalau Cymru (Gwasg Carreg Gwalch, 2018) yn drysor bychan. Nodwyd yn y golofn hon y mis diwethaf fod yr arbenigwyr o'r farn fod dros 40 math gwahanol o goed afalau yn perthyn i Gymru. Dyma ichi rai ohonynt a enwir yn llyfr Carwyn Graves. Maent yn dod o wahanol rannau o Gymru – nifer ohonynt bellach ar goll, naill ai wedi hen ddiflannu o'r tir neu heb eu hailddarganfod hyd yma.

Afal Enlli, Afal Brith Mawr, Afal Marged Niclas, Afal Gabalfa, Afal Tîn yr Ŵydd, Afal Trwyn Mochyn, Afal Pig Aderyn, Afal Bach Coch y Fandra, Afal Pren Glas, Afal Croen Mochyn, Afal Twm-y-crydd, Afal Trwyn y Siryf, Afal Pig y Frân, Afal Gwell na Mil, Afal Pen Caled, Afal Cadwaladr, Afal Gelli Aur, Afal Wern, Afal Calon Garreg, Afal Talgarth, Afal Glansefin, Afal Melys Bach, Afal Pren Bwen Bach, Afal Twm ap Hywel, Afal Melys y Gwiail, Afal Pren Miles, Afal Jac Gruffydd, Afal Coch-bach.

Mae'n siŵr fod yna stori y tu ôl i bob un o'r coed afalau uchod. Dyma ddywed Carwyn Graves: 'At ei gilydd, cysgod o'r hyn a fu yw'r mathau o afal Cymreig sy'n dal i fod gennym heddiw – ond cysgod gwerthfawr serch hynny. Gall fod rhai o'r hen fathau yn goroesi ar hen goeden mewn hen berllannau ffarm neu erddi cefn.'

Mae stori ailddarganfod afal Enlli yn hynod ddiddorol. Dyma fel y adroddwyd yr hanes gan Ymddiriedolaeth Ynys Enlli:

'Yn gynnar ym mis Medi 2000, roedd un o'r gwylwyr adar a oedd yn aros yng Nghristin, un o dai'r ynys, yn defnyddio afalau i ddenu adar. Yn dilyn sgwrs rhwng yr adarydd ac ymwelydd arall, Mr Ian Sturrock, gwnaed darganfyddiad cyffrous.

Deallodd Mr Sturrock, arbenigwr ar goed ffrwythau, bod yr afalau yn dod o goeden gnotiog a cham ar ochr ddeheuol Plas Bach. Er bod trigolion yr ynys yn cadarnhau bod cenedlaethau o ynyswyr wedi mwynhau'r afalau hyn, nid oedd neb yn gwybod pa fath o afalau oeddynt. Roedd yn eithaf posib mai'r ffrwyth pinc gydag arogl lemwn a blas amheuthun oedd yr unig oroeswyr o berllan a oedd yn cael ei meithrin ar y safle gan fynaich dros 1,000 o flynyddoedd yn ôl.

Sylweddolodd Mr Sturrock bod yr afal yn un anghyffredin."Doeddwn i ddim yn ei adnabod, felly mi es i ag o at arbenigwyr ar wahanol afalau Prydain – Brogdale Horticultural Trust yng Nghaint", meddai Mr Sturrock. Yno archwiliwyd yr afalau gan Dr Joan Morgan, un o brif arbenigwyr afalau Prydain, a'i datganiad hi oedd mai dyma afal prinnaf y byd. Fe'i disgrifiodd fel afal gyda streipiau pinc amlwg dros hufen, yn wrymiog a gyda chorun uchel.

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*


**Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen** Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

**STEPHEN JONES**
**TREFNWR ANGLADDAU CYF**

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
**Ebost:** stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Blwyddyn Newydd Dda i bawb o ddarllenwyr Llais Ogwan. Rydan ni mor lwcus o gael papur bro arbennig iawn yn ein hardal a chofiwch rydan ni wrthi drwy'r amser yn chwilio am newyddion a deunydd difyr i lenwi'r Llais. Cysylltwch hefo ni !

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn gyda Sandra ac Adrian Stokes, Ffordd Tanrhiw, yn eu profedigaeth o golli mam Sandra, sef Mrs Margaret Owen, 31 Hafod Oleu, Deiniolen fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Dachwedd 10 . Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd gyda brawd Sandra, sef Stephen. Roedd yn Nain i Darren a Julie ac yn Hen Nain i Becca Dafydd ac Ela Dafydd. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar Dachwedd 28, a chofion atoch i gyd fel teulu.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Bydd y gangen yn cyfarfod nesa Nos Lun, Chwefror 3, am 7.30 yn Festri Capel Shiloh, Tregarth ac fe fydd y noson yng nghwmni yr awdures Mared Lewis yn siarad am ei gwaith fel nofelydd. Cofiwch fod croeso mawr i bawb a da yw dweud fod Dysgwyr Cymraeg yn cael croeso cynnes yn ein plith.

Anfonwn ein cofion at un o aelodau cyntaf y gangen, sef Alwena Puw, Arllechwedd, Bethesda sydd heb fod yn dda yn ddiweddar ac wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Brysia nol i'r gangen Alwena !

## Capel Shiloh Newydd

Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r ardal gan aelodau capel Shiloh Newydd. Cofiwch fod croeso cynnes bob amser i'r oedfaon am 5 o'r gloch ac i Drws Agored bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch.


**Gwasanaethau Shiloh Newydd**

| | |
|---|---|
| Ionawr 19 | Parchedig Olaf Davies, Llandegfan |
| Ionawr 26 | Dr Ian Morris |
| Chwefror 2 | Trefniant Lleol |
| Chwefror 9 | Parchedig Peter Cutts, Porthaethwy |
| Chwefror 16 | Mr Dafydd Charles Thomas, Llanfairpwll |
| Chwefror 23 | Parchedig Richard Owen Jones, Gaerwen |
| Mawrth 2 | Dr Ian Morris |
| Mawrth 9 | Parchedig Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid |
| Mawrth 16 | Parchedig Philip Barnett, Swydd Efrog |

**Dathlu'r Nadolig**
Braf iawn oedd cael dathlu Gwyl y Nadolig eto eleni Nos Sul , Rhagfyr 15. Aelodau'r capel oedd yn arwain y gwasanaeth ac roedd yn oedfa fendithiol . Cawsom gyfle i groesawu y delynores Gwenno Roberts, Fferm Dob, Tregarth i ganu'r delyn yn ystod y gwasanaeth. Mae Gwenno wedi hen arfer dod atom gyda'i thelyn a daw bob blwyddyn ers iddi gychwyn chwarae pan oedd yn wyth oed. Eleni bydd Gwenno yn cwblhau ei haddysg Ysgol Uwchradd a dymunwn y gorau iddi yn y dyfodol.

Noswyl y Nadolig daeth y gynulleidfa ynghyd i Wasanaeth y Cymun am 6 o'r gloch a hynny yng nghwmni ein Gweinidog, sef Dr Ian Morris. Da oedd bod yn bresennol i ddathlu geni Crist eto eleni. Yr organydd oedd Wynn Williams ac ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd datganiad gwych o'r gerddoriaeth ' O Sanctaidd Nos'.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Gwenno Grug Roberts, Fferm Dob, Tregarth, enillydd Medal yr Ifanc yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.




# Cronfa Cyfle i Bawb

Rhoi gwyliau i blant a phobl ifanc difreintiedig Cymru

Gyda bron un plentyn ym mhob tri yn byw mewn tlodi yng Nghymru, mae Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael y cyfle i fwynhau gwyliau haf.
Bydd eich cyfraniad yn rhoi cyfleoedd a phrofiadau bythgofiadwy i blant yn un o Wersylloedd Haf yr Urdd.

Bydd rhodd o £220 yn cyfranu at weithgareddau, trafnidiaeth, llety, a bwyd i un plentyn yn un o wersylloedd haf yr Urdd. Drwy roi rhodd byddwch yn derbyn bathodyn pin arbennig a cherdyn post o'r gwersyll haf.

Rydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad, fawr neu fach.

"Rydym mor ddiolchgar i'r gronfa am alluogi fy mab i gymryd rhan mewn gweithgareddau bendigedig drwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch ddiogel. Roedd yn wên o glust i glust trwy gydol gweddill y gwyliau."

- GOFALWR MAETH

**Sut i wneud cyfraniad:**

- Gwefan yr Urdd: urdd.cymru/cronfa
- Anfon siec yn daliadwy i Urdd Gobaith Cymru
- Ffonio gwersyll Llangrannog ar 01239 652140



Cyfrannwch heddiw

Urdd

# Lliwiau mewn Enwau Lleoedd

Nodweddion amlycaf tirwedd yw ffurfiau a lliwiau, a chawn sawl enghraifft yn ein rhan ni o Eryri o enwau lleoedd sy'n cynnwys enwau lliwiau. Diddorol hefyd yw'r modd yr oedd ein hynafiaid wedi sylwi ar nodweddion gwrthgyferbyniol rhai lleoedd ac wedi defnyddio hynny wrth eu henwi.

Cymerwn y ddau liw gwrthgyferbyniol, du a gwyn. Yn gyffredinol, mae 'du' yn golygu 'tywyll', sef dark yn hytrach na black yn Saesneg, e.e. gwennol ddu (brown yw ei lliw, nid du); gwylan benddu (brown yw lliw ei phen, nid du); llyffant du – un tywyll ei groen (toad yn Saesneg'); neidr ddu (gyda chroen o liwiau tywyll, grass snake yn Saesneg); tir du. Pan fo tirwedd o liw tywyll, mae'n cyfeirio at liw'r graig neu liw'r llystyfiant.

Gall 'du' hefyd olygu 'brown tywyll' neu 'gochddu', a chyfateb i sable yn Saesneg, lliw blewyn y bela. 'Gwaed du' meddem ni am waed cochddu'r wythïen fawr – gwaed y rhydweli. Mae'r Ysgolion Duon yn ddisgrifiad addas o'r clogwyni noethion, tywyll sydd yn rhesi o silffoedd culion fel ffyn ysgolion yn codi'n unionsyth o waelod Cwm Glas Mawr ym mhen uchaf Cwm Pen Llafar at Gyfrwy'r Drum wrth ochr Carnedd Dafydd.

Ystyr 'gwyn' yw lliw golau – light-coloured yn hytrach na white. Llystyfiant golau yw'r 'gwyn' (yn ei ffurf fenywaidd 'gwen') yn y Freithwen Isaf, y Freithwen Uchaf a'r Rhiwen rhwng y Bont Uchaf a Than-y-garth. Mae'n debygol mai ystyr y Freithwen yw tirwedd amryliw golau. Yn achos Gallt Tu Gwyn a Braich Tu Du yn Nant Ffrancon (a derbyn mai'r enw 'tu', sef ochr, ac nid 'tŷ' oedd yn yr enwau'n wreiddiol), mae'n debygol bod y 'du' yn Braich Tu Du yn cyfeirio at y grib greigiog, dywyll sy'n amlwg ym mhen uchaf y llethr. O'i wrthgyferbynnu gyda Braich Tu Du, mae'n debygol bod y 'gwyn' yng Ngallt Tu Gwyn yn cyfeirio at liw golau'r coed llus sy'n gorchuddio'r llethr. Mae 'gwyn' hefyd yn medru cyfeirio at grawcwellt a hefyd at figwyn, sef y mwsogl lliw golau mewn corsydd. Enw cyfansawdd yw 'migwyn', o 'mign' (tir corslyd) a 'gwyn'. Llystyfiant o'r fath sy'n egluro'r enw Waun Wen rhwng Carnedd Llywelyn a Chwm Llugwy. Afon redegog yw Afon Wen yng ngheg Cwm Gaseg, efo dŵr gloyw a gwely graeanog, ond mae'r Nant Ddu yn llifo drwy fawnog ac mae ei dŵr hi'n dywyll. O dan gopa Pen yr Ole Wen uwchlaw Llyn Ogwen, mae llethr gwyrdd sy'n olau o'i gymharu â lliwiau tywyll y rhannau creigiog sy'n ei amgylchynu, ac mae'n bosibl bod hyn yn egluro enw'r mynydd, sef rhan uchaf yr oleddf wen.

Ystyriwn y lliw melyn. Mae 'melyn' yn medru golygu yr hyn y byddwn ni'n ei alw yn 'frown' – dŵr melyn mewn afon pan fo lli mawr, fel sydd yn yr Hen Bennill 'Afon Conwy'n llifo'n felyn, / Mynd â choed y maes i'w chanlyn…'. A Caradog Prichard – 'Mae'n noson fawr i fyny'r Nant, / Gwrando'i bytheuaid croch / Gwêl fy melynlli broch…'. March melyn neu gaseg felen ydy un light-bay yn Saesneg.



Rhiwen ar y chwith a Tan y Garth ar y dde uwchlaw'r Gerlan



Yr ysgolion Duon yn y cysgod a'r Bryniau Melynion yn llygad yr haul.

A llyffant melyn ddywedwn ni, er mwyn gwahaniaethu rhyngddo â'r llyffant du.

Fel gwyn a du, mae melyn a du yn lliwiau a ddefnyddiwyd wrth enwi lleoedd gwrthgyferbyniol. Cafodd y Bryniau Melynion ym mhen uchaf Cwm Pen Llafar eu henw oherwydd lliw melynwyrdd y llystyfiant o'u cymharu â lliwiau tywyll creigiau'r Ysgolion Duon. Yn achos y ddau lyn sydd ar ochr ddwyreiniol Foel Grach – Melynllyn a Dulyn – mae wyneb y naill yn edrych yn oleuach na wyneb y llall oherwydd lleoliad y creigiau uwchlaw iddynt gyda'u cysgodion mewn perthynas â'r haul. Yn ôl Hugh Derfel Hughes yn Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid (1866), y mwsogl melyn a roddodd inni'r enw Braichmelyn. Yr un llystyfaint sy'n egluro enw Nant y Gilfach Felen ar ochr y Bryniau Melynion.

Cymerwn y lliw coch. Ysgarlad ydy 'coch' y fuwch goch gota gyffredin, ond mae lliw iâr goch, carw coch, buwch goch, pridd coch a siwgr coch yn nes at yr hyn y mae 'brown' yn ei olygu i ni heddiw. A lliw 'cringoch' (lliw rhedyn crin) sydd i flewyn llwynog fel y nododd R. Williams Parry yn ei soned enwog. Mae'r 'coch' yn Foel Goch (Nant Ffrancon), Foelgoch (Nant y Benglog), Braich Coch, Cwm Coch, Clogwyn Coch yn cyfeirio at gochni'r tywodfaen a'r lleidfaen. Ond mewn rhai achosion gall 'coch' mewn enw lle gyfeirio at lystyfiant brwyn er enghraifft, fel yn Gors Coch, Nant Ffrancon, neu at wawr goch y mawn mewn lliw dŵr fel yn Rhyd Goch yn Nant y Benglog.

Yna'r lliw glas. Mae 'glas' yn medru golygu 'gwyrdd' fel yn 'glaswellt'/'gwelltglas', a dyma ydyw yn yr enw Rhiwlas sydd ar ochr Moelyci, a Rhiwlas sydd yn Nant y Benglog. Mae 'glas' hefyd yn gallu golygu 'llwyd' (grey) fel sydd yn 'merlen las', 'march glas' a 'llechen las'. Gydag enw Ffrydlas, yr afon sy'n tarddu rhwng Gyrn a Gyrn Wigau, mae'n bosibl mai cyfeiriad sydd yma at liw tywyll, llwyd ei dŵr gan ei bod yn gul iawn yn y gweunydd yng nghysgod torlannau brwynog. Yn achos Creigiau Gleision yn Nant Ffrancon, cyfeiriad at liw llwyd neu lwydlas y graig sydd yma – y gwenithfaen glas. Ymagor ym mhen uchaf Cwm Pen Llafar y mae Cwm Glas Bach a Chwm Glas Mawr, ac mae'r 'glas' yn cyfeirio at wyrddni'r llystyfiant yn hytrach nac at liw'r graig. Enghraifft o wrthgyferbynnu lliwiau dwy riw (llethr) yw Moel Rhiwen a Rhiwlas, efo Moel Rhiwen yn olau gan lystyfiant megis y crawcwellt o'i gymharu â gwyrddni glaswellt llethr Rhiwlas.

A beth am y lliw llwyd? Mae 'llwyd' yn medru cyfateb i grey yn Saesneg'; mae o hefyd yn medru golygu 'brown' fel yn 'papur llwyd' ac 'amlen lwyd'. Mae dau enw lle yn Nant Ffrancon yn cynnwys y gair 'llwyd'. Llethr graeanog, llwydlas yw'r Llymllwyd, ond beth am y Fronllwyd, y mynydd a anffurfiwyd gan Chwarel Cae Braich y Cafn (Chwarel y Penrhyn)?

Mae'r 'llwyd' naill ai'n cyfeirio at liw brown y grug ar lethrau'r mynydd neu at liw llwydlas y llechfaen a welid yn brigo i'r wyneb cyn dechrau chwarelydda. Cyfeirio at liw'r graig lwydlas y mae Bochlwyd wrth Tryfan, a Bwlch y Clawdd Llwyd rhwng Carnedd Llywelyn a Chyfrwy'r Drum.

**Ieuan Wyn**

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Mr. Wyn Hughes, Allt Penybryn a fu farw ym mis Rhagfyr, sef ei briod, Mrs. Linda Hughes, ei feibion, Paul a Marc, yr wyrion, a'i frawd Mr. Brian Hughes, Adwy'r Nant. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchg. Sara Roberts.

**Clwb Gorffwysfan**
Ar ddydd Mercher, 4 Rhagfyr aeth yr aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Warrington. Cafwyd diwrnod oer a sych a phawb wedi mwynhau.

Ar ddydd Gwener, 6 Rhagfyr gwahoddwyd yr aelodau i Ysgol Dyffryn Ogwen i gael Te Nadolig ac adloniant wedi ei drefnu gan ddisgyblion blwyddyn 10, sy'n dilyn cwrs BTEC (Lletygarwch), dan arweiniad Ceri Ogwen Owen. Wedi gair o groeso gan y Pennaeth, Mr. Dylan Davies, cafwyd te ardderchog gyda'r disgyblion ar eu gorau'n gweini.

Yn dilyn hyn, cafwyd adloniant gan Gwenno Beech, Seren Roberts, Cara Lennad, Hannah Ellis a Maxine Guest gyda Mr. Thomas yr athro cerdd yn cyfeilio. Ar ran pawb oedd yn bresennol – diolch yn fawr iawn!

Yna, ar ddydd Mercher, 11 Rhagfyr aeth yr aelodau i fwynhau Cinio Nadolig yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Diolch i bawb yn y clwb am y croeso a'r cinio ardderchog. Cafwyd raffl Nadolig, a diolch i Edric a Dilwyn am ofalu am werthiant y tocynnau. Diolch hefyd i'r aelodau am y rhoddion caredig.




**Pen blwydd 90**
Hoffai Nerys Bale ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a ddangoswyd i'w Mam Vera Morgan ar ei penblwydd yn 90eg ar 28 Dachwedd.

### YR EGLWYS UNEDIG

Blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch!

**Oedfaon**
Cawsom gwmni'r Parchedig Anna Jane Evans, a'r Parchedig R O Jones yn ein hoedfaon mis Rhagfyr, – diolch yn fawr iddynt ill dau am eu negeseuon pwrpasol iawn.

**Gwasanaeth Nadolig Cymunedol**
Unwaith eto eleni, cafwyd Gwasanaeth bendithiol dros ben yn y Capel, gyda

Chôr Meibion y Penrhyn, o dan arweiniad Owain Arwel Davies, a chyfeiliant Frances Davies, Steffan Llewelyn gyda chyfeiliant Beti Rhys, a Gwenno Roberts ar y delyn yn cymryd rhan yn yr eitemau cerddorol, a chyda Neville Hughes, Joe Hughes, Buddug Watcyn Roberts, Chenai Chikanza, Nicola Hughes, Ffion Rowlinson, Nerys Williams, a'r Parchedig Sara Roberts yn gyfrifol am y darlleniadau.

Arweiniwyd y cyfarfod gan y Parchedig







**Gwasanaeth Nadolig y Plant**
Hyfryd oedd cael croesawu'r plant i wneud eu rhan yn y gwasanaeth Nadolig arbennig. 'Roedd eu brwdfrydedd yn heintus, ac yn haeddiannol iawn daeth Sion Corn i'w cyfarch gydag anrhegion yn dilyn yr oedfa. Da iawn chi, blantos!

Ogwen
Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

Nerys Griffiths, a'r organydd oedd Beti Rhys. Diolch o galon iddynt i gyd am roi o'u hamser i barhau â'r traddodiad pwysig hwn yn ein cymuned. Diolch hefyd I Dilwyn Owen am ei englyn hynod o amserol ar gyfer clawr y rhaglen – dyma fo:

Â phryder yn ein herwau, - daw o'n cred
Ein cri mewn gweddïau
I fyd sy'n llawn gofidiau
Gael cariad yn had i'w hau.

Ac yn olaf, ond nid yn lleiaf, diolch yn fawr i'r gynulleidfa deilwng iawn am eu presenoldeb, a'u haelioni – casglwyd £340 ar gyfer Cartref Plas Ogwen.

**Y Gymdeithas**
Daeth nifer teilwng o aelodau'r Gymdeithas ynghyd nos Iau, Rhagfyr 12fed, i ddathlu Gŵyl y Geni. Diolchodd Neville, arweinydd y noson, i aelodau'r Eglwys Unedig ac Eglwysi Glanogwen, Carmel a Bethlehem am eu parodrwydd i gymryd rhan, ac i Ceri am roi trefn ar y cyfraniadau amserol a difyr.

Ar ddiwedd y cyfarfod, cawsom gyfle i gymdeithasu, a mwynhau paned a mins peis wedi'u paratoi gan Heulwen a Minnie. Bonws oedd cael tamaid o gacen 'Dolig flasus, yn rhodd gan Joe. Diolchwn i bawb am eu caredigrwydd.

Yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty, ni fydd Mr. Glyn Tomos yn gallu dod atom ar y 9fed o Ionawr. 'Rydym yn anfon dymuniadau am wellhad llwyr a buan iddo, gan obeithio y cawn ei gwmni rywdro yn y dyfodol. 'Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Dr. Dafydd Roberts am gytuno i lenwi'r bwlch – edrychwn ymlaen at sgwrs ddifyr. Dymunwn iechyd da ar hyd y flwyddyn 2025 i'n ffrindiau i gyd yn y Dyffryn.

**Cofion**
Yn ôl ein harfer, anfonwn ein cofion gorau at y rhai sydd yn fregus ar hyn o bryd, ac yn methu bod gyda ni yn yr oedfaon. Gobeithiwn y daw 2025 â iechyd gwell i bob un ohonoch.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
(am 10 oni nodir yn wahanol)
Ionawr 12: Gwasanaeth Plygain (6)
Ionawr 19: Y Parchedig Iwan Ll. Jones (5)
Ionawr 26: Y Gweinidog
Chwefror 2: Y Parchedig Eric Jones (5)
Chwefror 9: Dr. Dafydd Iwan
Chwefror 16: Y Gweinidog
Chwefror 23: Y Parchedig Olaf Davies
Mawrth 2: I'w drefnu
Mawrth 9: Y Gweinidog
Mawrth 16: Mr Richard Morris Jones
Mawrth 23: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)
Mawrth 30: Undebol yn Jerusalem (Cymun)

Neu beth am feddwl am drefnu rhyw achlysur i godi arian – mae pob cyfraniad yn help. Diolch o galon i bawb.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Raffl Nadolig**
Enillwyr:
1. Jill, Stryd Fawr Bethesda
2. Ann Morris, Ffordd Ffrydlas
3. Avril, Abercaseg
4. Helen Williams Glan Caseg

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y Ffair Gaeaf ar raffl – codwyd £300 – ardderchog yn wir!

Gobeithiwn am yr un gefnogaeth yn 2025 ar gyfer ein gweithgareddau i godi arian.

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn hollbwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb syn dioddef mewn unrhyw fodd.

Anfonwn ein cofion gorau i'n Ficer, y Parchedig Ddr. Gareth Lloyd, sydd yn dal ar gyfnod o salwch ers rhai wythnosau, gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda iddo ef ac Elizabeth a iechyd gwell yn 2025.

**Gwasanaethau Eglwys Crist**
Pob bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn. Hyd nes y Pasg cynhelir gwasanaethau ar y Suliau cyntaf a'r trydydd yn y mis yn unig, am 11yb fel arfer. Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981.

Mae ein diolch fel eglwysi Bro Ogwen yn ddiffuant iawn i Sara, sy'n gweithio'n galed iawn i lenwi pob bwlch yn ystod anhwylder ein ficer.

**Dyfodol yr Eglwys**
Mae cronfa'r Apêl yn dal i fynd, er mwyn cadw'r eglwys ar agor er defnydd y gymuned. Os hoffech gyfrannu, mae cronfa Gofundme yn dal i fynd, lle mae'n bosib cyfrannu'n uniongyrchol.




**Messiah**
Nos Sadwrn cyn y Nadolig, cawsom y fraint o gael dod ynghyd i wrando ar berfformiad gwefreiddiol o oratorio enwog Handel gan Undeb Corawl Gogledd Cymru yn y Capel.

Roedd dros 120 o gantorion yn cymryd rhan, ynghyd â phedwar unawdydd disglair, sef Kate Griffiths, Soprano, Samantha Lewis, Contralto, Alwyn Evans, Tenor, ac Adam Jarman Bâs. Yn cyfeilio 'roedd Ensemble Gogledd Cymru, yr organydd oedd Graham Eccles, ac yn arwain y cwbl yn hynod o fedrus 'roedd Trystan Lewis. Daeth cynulleidfa deilwng dros ben i'r digwyddiad, a theg yw mentro dweud y bydd profiad pawb ohonom ar y noson aros yn hir yn y cof.

# YSGOL DYFFRYN OGWEN



### Cystadleuaeth Fathemateg

Bu Ethan Artell, Gruff Beech, Alena Roberts ac Emily Williams yn cynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth fathemateg i ddisgyblion blwyddyn 9 Gwynedd. Roedd rhaid iddynt gymhwyso eu gwybodaeth mathemategol, rhesymu a chydweithio'n llwyddiannus fel tîm mewn amryw o rowndiau. Rydym yn falch i awn ohonynt am ddod yn gyntaf allan o'r 12 tîm a oedd yn cymryd rhan. Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar ohonoch!

### Darlith Nadolig Ysgol Fathemateg ac Ystadegau'r Brifysgol Agored

Roedd mathemategwyr y chweched dosbarth wedi mwynhau Darlith Nadolig yn dysgu sut all byd cyffrous bioleg fathemategol ragfynegi pa mor gyflym all zombies gymryd drosodd y blaned! Enghreifftiau diddorol o sut mae technegau Lefel A mathemateg yn gallu cael eu defnyddio mewn prifysgol. Diolch i Mr Aled Williams am drefnu.

### PobUrdd



Llongyfarchiadau arbennig i'r ddwy yma sydd wedi bod yn cystadlu yn rownd sirol PobUrdd gydag Urdd Eryri.

Roedd hi'n gystadleuaeth agos iawn gyda'r beirniad yn rhoi canmoliaeth mawr i'r ddwy. Coginiodd Addison gacen siocled 'goo' fendigedig, a'i gweini â meringue i gyd-fynd â thema 'Fy Hoff Bwdin'.

Roedd yr arogl ar darten pwmpen gludiog Angharad yn anfarwol a'r darten yn cael ei gweini gyda hufen ffres. Clod mawr i'r ddwy am lwyddo i gyrraedd y tri uchaf. 'Rydym yn falch iawn o'u hymdrechion.








### Her Faraday, Prifysgol Bangor

Cafwyd diwrnod prysur gan ddisgyblion blwyddyn 8 ym Mhrifysgol Bangor yn cymryd rhan yn Her Faraday. Llwyddon nhw i ddylunio a chreu prototeip ar gyfer eu dyluniad gwreiddiol; sef adnodd electronig ar gyfer ymarfer sgiliau pêl droed.

Cafwyd llawer o ddiddordeb a chanmoliaeth i'w syniad. Llongyfarchiadau i Lloer, Lowri, Elenia, Iwan, Ifan, a Bleddyn am gynrychioli'r ysgol mewn modd mor barchus, aeddfed a gweithgar.




### Ymweliad a Bistro Porth Eirias

Diolch enfawr i'r Cogydd Bryn Williams am wahodd rhai o ddisgyblion yr ysgol i brofiad anhygoel yn ei fwyty, Bistro Porth Eirias.

Roedd yn anrhydedd i ddisgyblion o ysgolion ar draws Gogledd Cymru gael eu gwahodd i flasu bwydlen wych a chael cipolwg amhrisiadwy ar yrfaoedd a chyfleoedd yn y diwydiant lletygarwch. Roedd yn noson ysbrydoledig, yn llawn bwyd blasus a thrafodaethau ystyrlon. Rydym yn ddiolchgar am eich haelioni. Profiad cofiadwy na fyddant yn ei anghofio! Diolch i Mrs Ceri Owen am drefnu.

# Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

### Taith Sion Corn

Unwaith eto eleni daeth Sion Corn a'i gorachod i ymweld a'r fro ar ei gar llusg gan alw ym Mhentir, Caerhun a Glasinfryn. Diolch yn fawr i Bwyllgor Carnifal Bethesda am drefnu'r achlysur. Gwerthfawrogwyd hyn gan y trigolion!

### Cylch Glasinfryn

Ar 11 Rhagfyr aeth aelodau'r Cylch i Pant Du ym Mhenygroes i fwynhau eu cinio Nadolig. 'Roedd yn brynhawn hynod a braf a'r golygfeydd yn hyfryd. Cawsom wledd arbennig a chroeso cynnes gan y staff, fel arfer. Yn lle rhoi anrhegion i'n gilydd eleni gwnaethpwyd casgliad at Hosbis Dewis Sant, Ysbyty Gwynedd gan wneud casgliad o £55.

Ar 8 Ionawr byddwn yn croesawu Dafydd Jones o Landdaniel i roi sgwrs ar Gynhyrchu Mêl. Yna yn mis Chwefror bydd cyfarfod cymdeithasol a thrafod rhaglen y flwyddyn newydd. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â ni yn y Ganolfan ar 12 Chwefror am 2yp.

**Banc Bwyd**

Pleser oedd gweld cymaint o ddosbarthiadau'n cofio am wir ystyr y Nadolig eleni drwy gyfrannu'n hael at y banc bwyd yn lleol. Dyma griw o 7 Ogwen yn ymfalchïo yn eu hymdrechion i gyfrannu i eraill dros yr ŵyl a chriw o flwyddyn 7 yn hebrwng yr holl fwyd i Hwb Ogwen.





**Rygbi**

Yn ystod mis Rhagfyr bu genethod blwyddyn 7 yn cystadlu yng nghystadleuaeth rygbi ysgolion. 'Roedd y genod yn dangos sgiliau tîm a gwytnwch ardderchog. Diolch Annest am drefnu.

**Pantomein Culhwch ac Olwen**

Cafodd ddisgyblion blwyddyn 7 daith werth chweil i theatr Pontio ym Mangor ar y 12fed o Ragfyr i wylio sioe arbennig Culhwch ac Olwen. Cafwyd canu, dawnsio a llond trol o hwyl gan y perfformwyr a'r disgyblion fel ei gilydd, a phawb yn teimlo'n hynod Nadoligaidd. Am ffordd wych i ymlacio ar ddiwedd tymor prysur o waith caled. Diolch i'r adran Gymraeg am drefnu'r daith.

Gan Awel, Addison ac Angharad 7 Ogwen.



**Adeiladu Tai Unnos**

Bu blwyddyn 10 wrthi "rhwng gwyll a gwawr" yn codi Tŷ Unnos o focsys cardfwrdd yn y wers Gymraeg yn ddiweddar. Ysbrydolwyd y criw ar ôl astudio'r gerdd Tai Unnos gan y diweddar Iwan Llwyd sy'n pigo'n cydwybod ni â'r broblem oesol o ddigartrefedd.

**Pantomeim 'Jack and the Beanstalk', Venue Cymru**

Roedd yn bleser mynd a blwyddyn 7 i wylio'r pantomeim 'Jack and the Beanstalk' i Venue Cymru; pawb wedi mwynhau yr hwyl a'r canu! Diolch i'r adran Saesneg am drefnu'r daith.

**Cinio Nadolig**

Diolch o galon i ferched y ffreutur am baratoi cinio Nadolig mor flasus. Pawb wedi llenwi eu boliau a mwynhau'r wledd!

**Tŷ Gwyrddfai**

Bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 10 yn Nhŷ Gwyrddfai yn cael eu haddysgu am yrfaoedd mewn sgiliau gwyrdd a swyddi adeiladu. Diolch i gwmni 'Adra' am y cyfle gwych yma i'r disgyblion ddysgu am fyd gwaith. Roedd pawb wedi cael budd mawr ac wedi mwynhau'r gweithdy yn arw.



**Symud Cartref**

Ffarweliwn ac Idwal a Gwyneth Jones, Y Bwthyn, Waen Wen, wedi rhai blynyddoedd yn byw yn yr ardal. Maent wedi ymgartrefu erbyn hyn yn Y Bwthyn, 3 Ffordd Gwyndy, Penrhosgarnedd. Dymunwn pob hapusrwydd ac iechyd yn eu cartref newydd.

Braf yw gweld golau yn Tegfan, 3 Waen Wen unwaith eto wedi rhai blynyddoedd o fod yn wag!

Mae Alaw a LInda Jones, oedd eisoes yn byw yn yr ardal wedi symud i mewn cyn y Nadolig.

Pob hapusrwydd ac iechyd iddynt hwythau hefyd yn eu cartref newydd.

**Y Messiah**

Braf iawn oedd cael bod yn bresennol yng Nghapel Jeriwsalem ar 21 Rhagfyr i wrando ar datganiad o'r Messiah. 'Roedd yn ddatganiad gwefreiddiol, wedi ei fwynhau yn fawr iawn.

Daeth ac atgofion yn ôl pan oeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen (fel llawer o rai eraill yn y gynulleidfa) pan berfformiwyd y Messiah gan Gôr yr ysgol ac unawdwyr wedi eu hyfforddi gan Mr Ken Evans, Pennaeth Miwsig, a Mr Ieuan Jones wrth yr organ. Beth a gofiaf yw ei fod wedi ysgrifennu y cyfan o'r gerddoriaeth i ni ar beiriant Banda! Dyddiau hapus!

**Newyddion**

Tenau yw'r newyddion y mis hwn! Erfyniaf arnoch os gwelwch yn dda am anfon eich newyddion ataf yn y flwyddyn newydd! Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

**Chwefror 10 a 24**

Croeso cynnes i bawb

## CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Ionawr 28
Chwefror 11 a 25

am 7 o'r gloch.
Croeso i bawb

## CAFFI COLLED BETHESDA

**Canolfan Gorffwysfan**

* * * * * * * * * * * * * *

Ion 27: **Blwyddyn Newydd Sineaidd**

* * * * * * * * * * * * *

**Cysylltwch â'r Caplan Bro:**
**Parchg. Sara Roberts:**
**Sararoberts@churchinwales.org.uk**
**Ffôn symudol: 07967652981**
**FB: CAFFI COLLED**



## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Nos Lun, 10 Chwefror**

**7.00 Y Prifardd Ieuan Wyn**

Hiwmor Dyffryn Ogwen

***Lleoliad y Cyfarfodydd:***

**Wyneb yn wyneb:** Yn festri Capel Jerusalem, Bethesda. Cofrestrwch efo **garethllwyd197@btinternet.com**

**Rhithiol tros Zoom:** Cofrestrwch efo **bethan@ogwen.org** erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf.

FFI AM Y CWRS:
£10.00 i rai mewn gwaith
£5.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif "Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen" drwy:
BACS: **40-16-02 41386212,** neu
Gydag arian parod ar y noson.


## Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*

Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000



ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED

**A.G.L.**
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909


## Taith Tractors – Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen

Dymuna Pwyllgor Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen ddiolch yn fawr am y gefnogaeth a gafwyd gan holl bentrefi'r dyffryn a thu hwnt wrth gynnal y daith tractors eleni. Diolch i Glwb Rygbi Bethesda am gael defnyddio'r cyfleusterau ac i Wayne, Sue a'r criw am y lluniaeth a'r croeso. Diolch yn ogystal i'r holl unigolion wnaeth helpu ar y pnawn ac i stiwardio'r daith.

Llongyfarchiadau i Osian Griffith, Sion Bowness a Dafydd Morris am ennill gwobrau am y tractors oedd wedi eu haddurno orau. Diolch i Garmon Hughes, Tryfan Agri, am feirniadu a noddi'r gwobrau.

Mae'r dyddiad ar gyfer taith blwyddyn nesaf wedi ei bennu yn barod sef Dydd Sul 14eg o Ragfyr, 2025. Rydym wedi clywed son fod sawl un yn dechrau paratoi a meddwl am syniadau sut i addurno'r tractors yn barod! Edrychwn ymlaen at flwyddyn nesaf!







## Gair neu ddau
**John Pritchard**

# OS DUW A'I MYN

Mi fedraf yn rhwydd gredu ei bod yn gynyddol anodd erbyn hyn i sicrhau gweinidog neu bregethwr i arwain oedfaon yn ein capeli. Mae pawb sy'n dwyn y cyfrifoldeb o drefnu'r oedfaon yn sylweddoli nad oes gormodedd o bobl y gellir eu gwahodd i arwain yr addoliad o Sul i Sul. Un arwydd o'r amserau oedd y sgwrs ffôn a gefais wedi'r Nadolig â gwraig a ddywedodd bod o leiaf bump o'r pregethwyr a drefnwyd ganddi ar gyfer 2025 wedi cysylltu â hi'n ddiweddar i ymddiheuro na fedran nhw gadw eu cyhoeddiad. Mae'n debyg mai gwaeledd neu lesgedd a orfododd bob un i wneud hynny.

O glywed hynny, dylwn ddiolch am yr iechyd a gefais dros flwyddyn arall i fod ynglŷn â'r gwaith o arwain addoliad a chyhoeddi'r Efengyl. Os cofiaf yn iawn, mi lwyddais i gadw pob addewid a wneuthum i fynd i'r amrywiol gapeli. Yr unig eithriadau oedd yr oedfaon yn Lerpwl a Phenbedw y cytunwyd nad oedd yn ddoeth i mi deithio iddyn nhw yng nghanol Storm Darragh!

Dwi wedi ceisio cadw pob cyhoeddiad ar hyd y blynyddoedd. Nid bod hynny'n rhwydd bob amser chwaith o gofio'r duedd a fu i drefnu Suliau dair a phedair a phum mlynedd ymlaen llaw! Ond diolch am hynny, anaml iawn y bu raid i mi ymddiheuro am fethu â chadw cyhoeddiad.

Wn i ddim a wnes i hynny hanner dwsin o weithiau mewn hanner can mlynedd. Ond nid fy nghanmol fy hun ydi'r bwriad wrth ddweud hynny ond cydnabod yr iechyd da a gefais dros y blynyddoedd drwy drugaredd Duw.

Mae'r dyddiadur yn prysur lenwi ar gyfer eleni, ac mi wnaf fy ngorau i gadw pob addewid i fynd i bregethu. Ond rywsut, mae dechrau blwyddyn yn f'atgoffa mai 'os byw ac iach' ac 'os Duw a'i myn' fydd hi o Sul i Sul. Does gen i, mwy na neb arall, ddim sicrwydd o'r un diwrnod. Nid bod cydnabod hynny o reidrwydd yn codi'r felan arnom ac yn ein digalonni. Un o wirioneddau syml a diymwad bywyd ydyw, ac mae'n dda i ni ei gydnabod rhag cymryd un dim yn ganiataol.

'Os Duw a'i myn', mi wnawn ni hyn ac arall. Ysgogiad i weithio a gwasanaethu a mwynhau bywyd i'r eithaf ydi'r geiriau. Ac maen nhw'n adleisio'r hyn a ddywed Iago yn ei lythyr yn y Testament Newydd: 'Dylech ddweud, yn hytrach, "Os yr Arglwydd a'i myn, byddwn yn fyw ac fe wnawn hyn neu'r llall." Ond yn lle hynny, ymffrostio yr ydych yn eich honiadau balch' (Iago 4:15–16). Bydd derbyn pob diwrnod newydd fel rhodd gan Dduw, gan sylweddoli a chydnabod mai dyna ydyw, yn ein gwneud yn fwy parod i wneud y gorau ohono. Os yw Duw'n gweld yn dda i roi i ni ddyddiau a misoedd a blynyddoedd, mi ddylem eu defnyddio i'r eithaf.

Ar ddechrau blwyddyn arall, diolch am gael trefnu ein hymweliadau a'n dathliadau a'n hamrywiol weithgareddau. Dymunwn i'n gilydd iechyd da a phob rhwyddineb, a gweddïwn y profwn arweiniad Duw a'i gysgod drosom beth bynnag a ddaw a beth bynnag a fynno Duw. Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

# Nyth y Gân

Hen lun wnaeth afael ynom o'i weled
Ar y wal ble'i cawsom;
Cyni'r Streic yn yr oes drom,
A'i hanes yn dal ynom.




**Cefnogwyr Côr Merched y Penrhyn yn ystod eu taith i godi arian i'r streicwyr.**

**CARNEDD DAFYDD**
Mor gadarn y mae'n edrych
O'r gadair yn y tŷ,
Ac yno ers canrifoedd
Yr un olygfa sy.

Llechweddau llwm sy ganddo,
Does arnynt fawr o fwyd,
Dim ond ychydig laswellt
A dyf rhwng meini llwyd.

Daw'r haf â rhyw gynhesrwydd
I'r anial, uchel dir;
Am gyfnod byr mae'n aros –
Byr iawn, a dweud y gwir.

Ond er mor fyr yw'r hafau
Mae cyfoeth ynddo fo
Pan welwn yr olygfa
Yn drysor uwch y fro.

**HEN LYFRAU**
Gorwedd am hir fu'r geiriau o dan glo
Ond yn glud rhwng cloriau;
Yno'r rhain ddeil i barhau
I ledu ein teimladau.

**Dafydd Morris**

**CHRIS GRIFFITHS CYF**
**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**

**18 Carreg Felin**
**Llandegfan**
**Ynys Môn**
**LL59 5YB**
**☎ 01248 713 369**
**neu 07813 455653**

**Mark Davies**
07447804110
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
**mark@mdcaravans.cymru**
MCEA

**JOHN ROBERTS**
**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**

**Symudol:** 07747 628650
**Ffôn:** 01248 600995

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts



**Ma mae aelodau'r côr yn dweud wrth Derfel Roberts pa ddigwyddiadau nodedig a fu yn ystod y mis a aeth heibio.**



**Côr y Penrhyn yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy.**
Yn y llun gwelir aelodau'r côr. Yn penlinio o'u blaenau mae **Ross Craigmile**, oedd yn cyfeilio i'r unawdydd, **Eve Marie**, sydd mewn gwisg goch. Yn sefyll nesa ati hi mae **Owain Arwel Davies**, arweinydd y côr a **Fran Davies**, cyfeilydd.

**Y soprano Eve Marie'n canu efo'r côr yn Llanelwy**
Cymerodd y côr ran mewn gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ynghanol Mis Rhagfyr meddai **Rheinallt Davies**. Dyma'r ail dro inni gael gwahoddiad i ganu yn yr eglwys hynafol hon. Perfformiodd y côr yn dda ar noson arbennig o oer a chafwyd cwmni'r gantores opera Eve Marie sy'n wreiddiol o Wlad Belg, ond sydd bellach yn byw yng ngogledd Cymru. Roedd ganddi lais bendigedig ac yn cyfeilio iddi roedd Ross Craigmile sy'n aelod o'r ail fas yn y côr. Mae yntau wedi cyfeilio'n broffesiynol mewn tai opera yn yr Eidal, Sbaen a lleoedd eraill ar y cyfandir.




**Llion Derbyshire**
Mae Llion yn sôn am gyflwyno cloc i aelod anrhydeddus o Gôr y Penrhyn.

Yn ystod y cinio blynyddol manteisiwyd ar y cyfle i gyflwyno cloc llechen hardd o waith crefftus Alun Davies i un sydd bellach wedi ymddeol o ganu efo'r côr ond sy'n dal i gymryd diddordeb yn ei berfformiadau a'i weithgareddau.

**Prysurdeb**
Buom yn canu carolau yng Nghartref yr henoed ym Mangor ac ym Mhlas Ogwen adroddodd **Aled Williams**. Fe fuom yn cymryd rhan yn y gwasanaeth Nadolig traddodiadol yng Nghapel Jerwsalem ymhlith llu o alwadau eraill a bu'r cyfnod cyn y Nadolig yn amser eithriadol o brysur i ni.

**Cinio Nadolig**
Y Cinio Nadolig blynyddol yn y Clwb Rygbi sy dan sylw gan **Emyr Roberts** y mis hwn a dywedodd bod y côr wedi mwynhau gwledd arbennig wedi'i pharatoi a'i gweinyddu gan Wayne Eccles a'i dîm. Yn ystafell fawr y clwb oedd man cyfarfod y côr am y cinio Nadolig.

Daeth Dilwyn Morgan, y digrifwr o'r Bala atom eleni ac fe gawsom fwynhau noson o wledda a hwyl yn ei gwmni. Go brin y gellir cael cinio Nadolig traddodiadol gwell na'r hyn sy'n cael ei weinyddu yno'r dyddiau hyn. Diolch i Wayne Eccles a'i staff am safon ac ansawdd eu bwyd a'u gwasanaeth hynod o effeithiol.

**Cydymdeimlad**
Yn sŵn y dathlu a'r miri rhaid cofio am yr aelodau hynny a brofodd brofedigaethau a thristwch dros yr ŵyl. Collodd Llion Derbyshire, o'r bas cyntaf, ei fam yn Llanuwchllyn ac fe gafodd Aled Williams a'i briod Nia, golled pan fy farw Alwen, chwaer Nia, yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd, cofiwn at Gwyneth, gwraig Idwal Jones, eto o'r bas cyntaf, ar ôl colli ei brawd, Arfon, yn Llanfairpwll.

Cydymdeimla aelodau'r côr â phawb a fu mewn trallod tebyg dros yr ŵyl.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor

Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

# Gymnasteg yn rhoi nerth i athletwyr ifanc yn Nyffryn Ogwen

## Yma mae Nick Pipe o Goed y Parc yn rhoi peth o hanes llwyddiant Dreigiau'r Dyffryn



Criw o Ysgol Dyffryn Ogwen fu'n gwneud mabolgampau gymnasteg efo Dreigiau'r Dyffryn

### Dreigiau'r Dyffryn yn dangos y ffordd

Clwb sydd wedi cofrestru efo Gymnasteg Cymru ydy Dreigiau'r Dyffryn.  Dydy o ddim yn glwb sydd wedi ei sefydlu er mwyn gwneud elw ond yn hytrach clwb sy'n cynnig cyfleoedd i blant 3 blwydd oed a throsodd o Ddyffryn Ogwen a'r cylch.  Mae'r clwb yn cael ei gynnal ym Methesda ac mae'n cynnig amgylchedd cefnogol i fechgyn a merched er mwyn ceisio eu hannog i fagu hoffter o ymarfer corff a chwaraeon.

### Cyllid

Yn ddiweddar mae Dreigiau'r Dyffryn wedi chwarae rhan allweddol mewn menter i hybu mynediad i chwaraeon mewn ardaloedd gwledig.  Mae hynny'n digwydd oherwydd cyllid a gafwyd gan 'Byw'n Iach', sy'n rheoli canolfannau hamdden Cyngor Gwynedd.  Mae'r cyllid hwnnw wedi dod fel ymateb i Adroddiad Bevan sy'n tynnu sylw at broblemau cymryd rhan mewn chwaraeon yn yr ardaloedd gwledig Un o'r rhesymau am hynny ydy pellter oddi wrth gyfleoedd i gymryd rhan a chostau byw.  Mae pwyslais arbennig ar annog merched ifanc a rhai hŷn i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Dechreuodd y clwb ymwneud â'r prosiect pan ddaeth Clare Wallis, sy'n athrawes yn Ysgol Dyffryn Ogwen at Ddreigiau'r Dyffryn i weld os bydden nhw'n gallu cynnig help i annog merched ifanc o flynyddoedd 7,8 a 9 i gymryd rhan mewn clybiau chwaraeon lleol.  Gyda chefnogaeth yr arian cyflwynodd y clwb gyfres o sesiynau gymnasteg i grŵp o ddisgyblion o Ysgol Dyffryn Ogwen ac fe gafwyd adborth brwdfrydig iawn i'r gyfres.

### Eisiau mwy

"Roedd y sesiwn gymnasteg yn Nreigiau'r Dyffryn efo Sophie yn wych pan aethon ni yno efo'r ysgol.  Mi hoffwn i fynd bob wythnos," meddai un o'r disgyblion.

Oherwydd bod y sesiynau hyn mor boblogaidd derbyniodd Dreigiau'r Dyffryn fwy o arian gan Gymnasteg Cymru a bydd hynny'n golygu bod y rhaglen yn gallu parhau am y 12 mis llawn.  Y canlyniad ydy bod 16 disgybl Ysgol Uwchradd yn cymryd rhan mewn sesiynau gymnasteg am ddim yn y clwb a thrwy hynny'n cyfrannu at well iechyd corfforol a mwy o gyswllt cymdeithasol.

"Dwi'n wirioneddol lwcus mod i'n gallu gwneud gymnasteg unwaith y mis am ddim. Roeddwn i wedi stopio gwneud chwaraeon ond rŵan dwi'n teimlo'n llawer mwy iach ac yn teimlo'n well amdanaf fy hun," meddai disgybl arall, ac mae hynny'n dangos bod y sesiynau wedi cael effaith lesol ar iechyd y bobl ifanc.


### Gwneud ffrindiau

Nid annog ymarfer corff yn unig mae'r rhaglen ond mae hefyd yn llwyddo i greu ffrindiau o'r newydd. " Mae'r sesiynau ar ôl ysgol efo Sophie yn llawer iawn o hwyl ac rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd. " meddai un arall.

Llwyddiant nodedig sy'n sefyll allan ydy'r ffaith fod un ferch wedi llwyddo i ddringo o fod yn ddisgybl gymnasteg i fod yn hyfforddi'r gamp.  Dros yr haf llwyddodd y disgybl i gwblhau Cwrs Arweinydd mewn campau Gymnasteg yn Nreigiau'r Dyffryn, ac mae hi wedi ymuno â'r clwb fel un o'r hyfforddwyr cyflogedig.

Wrth edrych ymlaen, mae Dreigiau'r Dyffryn yn ymrwymo i gynnig gwersi gymnasteg am ddim i ddisgyblion uwchradd hyd yn oed ar ôl i'r cyfnod ariannu ddod i ben.  Mae'r prosiect wedi llwyddo i gryfhau'r cwlwm efo Ysgol Dyffryn Ogwen ond hefyd wedi llwyddo i greu cyfleoedd parhaol i ddatblygu ffitrwydd corfforol a phersonol.

Drwy gyfrwng y fenter hon mae Dreigiau'r Dyffryn yn parhau i ddangos sut y gall chwaraeon effeithio'n gadarnhaol ar fywydau pobl a thrwy hynny fagu hunan hyder a gwella iechyd yn ogystal â chreu rhwydwaith o gysylltiadau yn y gymuned.










# CROESAIR



**AR DRAWS**

1 Hen bennill mewn pwt o gân (3)
3 Os yn syth a gwastad mae'n lles at wneud silff (5)
7 Harbwr diweddar yng Ngheredigion ? Choeliai fawr. (8)
8 Bôn braich (4)
9 Maent yn ddifyrrwch i fynd â'ch bryd (10)
11 Rhan ucha'r tŷ neu lofft stabl (6)
13 Bod efo'r union bwrpas neu fwriad (6)
15 Parchu a charu delwau yn ormodol (10)
19 Cewch le ymochel diddos meddai'r arweinwyr wrth eich gadael yn gysurus (4)
20 Cynefin dyn ac anifail i'w barchu a'i amddiffyn (8)
21 Wedi plicio can oren yn ofalus (5)
22 Smotyn (3)

**I LAWR**

1 Grwpiau gwleidyddol (8)
2 Ynglŷn ag ysgrifennu creadigol o bob math (7)
3 Y broses o dyfu i'w lawn dwf (7)
4 Beth gaf at wella'r mygdod yma (5)
5 Llond trol (4)
6 Cant sy'n gwybod fod gwêr yn gwneud cannwyll (4)
10 Llifai'r afonydd yn gryno fel o Gwm Dyli (8)
12 Rhif Priodas Ruddem (7)
14 Os i Cledwyn bach y rhoddwyd yr Ŵy Pasg (7)
16 Rhoi'r ffidil yn y to a rhoi'r gorau iddi (5)
17 'Dim ond lleuad borffor, Ar fin y mynydd llwm.....' *Hedd Wyn* (4)
18 Sŵn caled sydyn wrth fynd yn ôl i gael yr arian a gadwyd (4)

Atebion erbyn **7fed Chwefror 2025 fan bellaf** (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i **'Croesair Ionawr'**, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

## ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2024

**AR DRAWS**
1 Amod, 4 Elba, 8 Y Nwy, 9 Afreolus, 10 Nadolig Llawen, 11 Swper, 13 Canys, 15 Y Brenin Herod, 18 Gweithred, 19 Y Plu, 20 Y Nos, 21 I'r De

**I LAWR**
2 Mantais, 3 Dwylo, 4 Ebrill, 5 Bronwen, 6 Ffariar, 7 Buan, 12 Partïon, 13 Cenedl, 14 Siocled, 15 Ylwch, 16 Nerys, 17 Eryri

Dyma'r ychydig wallau a gafwyd y tro yma : dau yn cynnig 'Canada' yn lle 'cenedl' (13 I Lawr), a chafwyd hefyd 'llunn' yn lle 'buan' (7 I Lawr) a 'Y Clo' yn hytrach na'r ateb cywir 'Y Plu' (19 Ar Draws)

Dyma'r rhai anfonodd atebion hollol gywir: Nerys Jones, Rhosllannerchrugog; Dulcie Roberts, Gareth Oliver, Rosemary Williams, Tregarth; Gill King, Mynydd Llandygai; Judith Hughes, Llangoed; Doris Shaw, Emyr Roberts, Bethesda; Iona Williams, Llanddulas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Wendy Eccles, Llanllechid; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Elwyn Jones, Rhiwlas; John Ffrancon Griffith, Abergele; Barbara Jones, Talybont; M. A. Jones, Rachub.

Mae'r clod a'r wobr y mis yma yn mynd i Doris Shaw, 2 Arafa Don, Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd LL57 3AR. Llongyfarchiadau calonnog i chi.




MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com



Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**